Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 6ed Mehefin, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Gwasanaethau Plant |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi ac Adfywio |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 EBRILL 2017 | | | 4 - 6 |
| 6 | ADDODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2016/17 | Cyng / Cllr Dyfrig Siencyn | Janet Roberts | 7 - 49 |
| 7 | RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN | | Dafydd Edwards | 50 - 55 |
| 8 | CYFRIFON TERFYNOL 2016/17 - ALLDRO REFENIW | | Dafydd Edwards | 56 - 79 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 25 EBRILL 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

Eitem 6: Rachel Jones (Swyddog Strategol Gofal Plant Gwynedd a Môn)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Dim ymddiheuriadau i'w cyhoeddi.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen, oherwydd fod ei wraig yn gweithio i ddarparwr allasai gael ei effeithio gan weithrediadau'r cynllun gweithredu. Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth am yr eitem.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2017

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 28 Mawrth 2017, fel rhai cywir.

## 6. ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2017 - 2022

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**

- Cymeradwyo'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-22 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- I ddefnyddio adnoddau a chyllid presennol i fynd i'r afael a'r bylchau a amlygwyd yn yr Asesiad, ac i ddatblygu gofal plant ychwanegol lle bo angen, yn unol ar cynllun gweithredu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad ac Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-22, gan nodi fod yr Asesiad angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill. Amlygwyd y bydd angen defnyddio adnoddau a chyllid presennol i fynd i'r afael a'r bylchau sydd wedi ei amlygu i gyd fynd a'r Cynllun Gweithredu.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, yn mynnu fod Awdurdodau Lleol yn paratoi Asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal yn eu hardal ac yn adolygu y rhain yn rheolaidd. Nodwyd fod Cynllun Gweithredu yn adnabod y blychau o fewn yr asesiad ac mae trefn yn ei lle o fewn Canllawiau Statudol Gofal Plant.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut y bydd y Cynllun 30 awr o ofal plant yn cydweithio a'r prosiect hwn. Nododd Rachel Jones ei bod wedi ysgrifennu'r asesiad ynghyd a gweithio gyda'r cynllun 30 awr o ofal plant, ac o ganlyniad bydd y ddau brosiect yn cydblethu.
- Nodwyd yn adran Camau Gweithredu yn yr Asesiad nad oes llawer wedi ei nodi yn y golofn Cerrig Milltir felly holwyd pwy fydd a'r cyfrifoldeb fod y cerrig milltir yn digwydd. Pwysleisiwyd y bydd cerrig milltir ar gyfer pob cam gweithredu ynghyd a sefydlu Bwrdd Strategol Gofal Plant ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn.
- Cwestiynwyd pam y bu ymateb holiaduron rhieni yn yr ymgynghoriad mor isel – nododd Rachel Jones fod y Llywodraeth wedi cysoni yr asesiad a holiaduron dros Gymru a nodwyd o ganlyniad i hyn fod ymatebion wedi bod yn isel ar draws Cymru. Amlygodd Rachel yn ogystal ei bod wedi creu holiadur byr lleol ei hun yn ogystal er mwyn cael mwy o wybodaeth gan rieni.
- Nodwyd fod grantiau yn cyd-fynd a'r Asesiad, ond natur grantiau yw e bod yn dod i ben a ble fydd yn hyn gadael y gwasanaeth. Pwysleiswyd fod hyn i'w weld ym mhob adran a bydd yr adran yn blaenoriaethu a edrych ar eu gwasanaethau.
- Pan yn edrych ar y Gymraeg, holwyd os y bydd y cynllun a'r gofal plant sydd ar gael yn cyd-fynd a polisi iaith yr adran addysg. Amlygwyd fod yr eirfa a ddefnyddwyd yn yr holiadur yn nodi os y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn cwblhau gwaith papur drwy gyfrwng y Seasneg wedi eu nodi

fel lleioliad sy'n gweithio yn ddwyieithog er fod y ddarpariaeth ar gael drwy'r Gymraeg i'r plant. Pwylsieswyd mai dilyn geifra Llywodraeth Cymru oedd yr holiadur a nodwyd fod angen cadarnhau fod y ddarpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mynegwyd fod trafodaeth ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun gofal rhyngenhedlaeth yn digwydd gyda Prifysgol Bangor i ddod a gofal plant a gofal pobl hyn at ei gilydd, nodwyd fod yr adran yn gobeithio y bydd perthynas rhwng y cynllun hwn a'r asesiad.

Cyn terfynu diolchodd Arweinydd y Cyngor i swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Arweinydd y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Mehefin 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Janet Roberts, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32873** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2016/17** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2016/17 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2016/17 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad sydd wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad hwn wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sydd yn rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.

Mae'r Adroddiad (Atodiad 1) wedi ei lunio yn gryno ac yn rhoi sylw i'r prif faterion yn weledol er mwyn i drigolion Gwynedd allu ei ddarllen yn rhwydd.

Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n gynt eleni ac o'r herwydd mae'r amserlen yn dynn. Mae yna waith i wneud eto ar ddyluniad y ddogfen.

Mae cynnwys y Tabl Mesurau (Atodiad 2) yn wahanol i adroddiad y llynedd. Ni fydd yr wybodaeth gymharol ar gael tan mis Medi er mwyn gallu cymharu perfformiad Gwynedd â gweddill Cymru na'r 'Teulu' o Gynghorau cyffelyb. Bwriedir cyhoeddi hwnnw fel atodiad ychwanegol. Yn y cyfamser mae nifer fechan o fesurau ble nad yw data terfynol ar gyfer 2016/17 ar gael eto, ond bydd y bylchau hyn wedi eu llenwi erbyn llunio'r fersiwn derfynol fydd ger bron y Cyngor yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin.

Rydym eleni yn edrych yn ôl a chymharu perfformiad y Cyngor ar gyfartaledd

dros 4 mlynedd, yn hytrach na mesur tuedd gyferbyn â'r flwyddyn flaenorol yn unig. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi ei gyflawni o dan Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2017. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid**

Cadarnhaf gywirdeb agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad gerbron, a'i atodiadau. Mae'r rhan 'Cynllunio Ariannol' o'r adroddiad yn amlinellu sut mae'r Cyngor wedi isafu'r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd gwerth £31m dros y pedair blynedd diwethaf (gwireddwyd £6.15m o arbedion yn 2017/18 o newid dull darparu'r gwasanaethau). Nodir yno hefyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw gwariant o fewn y gyllideb ym mhob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2017/18.

Mewn adroddiad 'Cynllunio Arbedion – Cyngor Gwynedd' gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, dywedai Archwilydd Cyffredinol Cymru daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad "bod gan y Cyngor ddull cynllunio arbedion effeithiol ac ystyriol sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Mae hon yn sefyllfa gref sydd wedi parhau ers 2015/16 – Mae gan y Cyngor bolisïau sefydledig a chlir mewn perthynas â'i drefniadau cynllunio ariannol."

Edrychaf ymlaen at weithio gyda Chynghorwyr Gwynedd i sicrhau parhad o'r perfformiad ariannol ar y safon yma er mwyn wynebu her y blynyddoedd nesaf.



# Adroddiad Perfformiad

## Cyngor Gwynedd

## 2016/17

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

# Mynegai

**Cynnwys** **Tudalen**

Rhagair Arweinydd y Cyngor

Ein Gwariant

Cynnal Sgwrs Hefo Pobl Gwynedd

Bodlonrwydd Pobl Gwynedd

**Plant a Phobl Ifanc**

**Gofal**

**Diogelu**

**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

**Y Gymraeg**

**Yr Amgylchedd**

**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**

**Cynllunio Ariannol**

**Am ragor o wybodaeth neu i gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â**

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-Bost: perfformiad@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679873

Graffeg "designed by Freepik"

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Rhagair Arweinydd y Cyngor



Y Cynghorydd Dyfed Edwards, **Arweinydd y Cyngor** yn ystod 2016/17

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw crynhoi perfformiad Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2016/17 yn glir a chytbwys. Rwy'n falch felly o fedru edrych yn ôl a dweud bod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu gwasanaeth cadarn i'n trigolion, a hynny yn ystod cyfnod o newid. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i gynllunio gwasanaethau cynaliadwy i drigolion y sir gan ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol a'n cymunedau amrywiol.

Drwy gynllunio ariannol cadarn, mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddarganfod arbedion ariannol o £31m dros y 4 mlynedd ddiwethaf gan geisio gwarchod y gwasanaethau hynny sydd yn bwysig i drigolion y sir. Mae'n bwysig cofio bod yr her ariannol yn parhau, ond mae'n trefniadau mewnol yn gadarn yn eu lle er mwyn cynllunio ar gyfer yr hyn a ddaw.

Ein blaenoriaeth fel Cyngor oedd parhau i ddarparu y gwasanaeth gorau posibl i'n trigolion. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n braf gweld bod 92% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) yn cyrraedd lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'n bwysig nodi hefyd bod nifer y disgyblion sy'n gadael ysgol yn 16 oed ac sydd ddim yn mynd i addysg, hyfforddiant neu waith wedi disgyn i 1% (13 o bobl ifanc) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dangos lleihad sylweddol o'r ffigwr o 3% yn 2012.

Mae amgylchiadau ariannol y blynyddoedd diwethaf wedi ein harwain at gynllunio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, a gydag unigolion a chymunedau Gwynedd, rydym yn llunio ein gwasanaethau gofal drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Er bod gwaith Tîm Integredig Ysbyty Alltwen yn enghraifft o lwyddiant darpariaeth o'r fath, mae heriau mawr yn parhau oherwydd y sialens o recriwtio i'r gweithlu gofal a nyrsio. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod 2017/18 er mwyn ceisio sicrhau bod gennym weithlu teilwng i ddarparu'r gofal gorau i drigolion Gwynedd.

Mae sicrhau gweithlu abl a chyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer pob rhan o'r sir, gwledig a threfol, yn parhau yn heriol. Rydym fel Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynaladwyedd ein cymunedau, a bydd y £4m o gyllideb o dan y Rhaglen Datblygu Cymru Wledig yn gam tuag at y nod hwn.

Gall rhwystrau i gyfathrebu'n dechnegol fod yn llesteiriol i fusnesau a thrigolion, felly mae gwella'r rhwydwaith ddigidol yn parhau yn flaenoriaeth. Mae Band-eang cyflym bellach ar gael i 83% o gartrefi a safleoedd busnes yng Ngwynedd, sy'n uwch nag mewn siroedd cyffelyb (Ceredigion, Powys a Sir Gâr), a bydd y gwaith i ymestyn hyn ymhellach yn parhau yn 2017/18.

Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd yn ystod 2016/17 ac yn adnabod ble mae gennym le i wella ymhellach. Wrth edrych i'r dyfodol rwy'n dymuno'n dda i'r Cyngr newydd gyda' rgwaith o arwain a chraffu ar y gwaith pwysig fydd o'u blaenau. Felly hefyd rwy'n dymuno'r gorau i'r Cyngor, yn aelodau a swyddogion, ac i drigolion Gwynedd i'r dyfodol.


Mae'r potensial yn fawr; y gwaith pwysig yw ei wireddu.



Y Cynghorydd Dyfed Edwards

# Ein Gwariant

Dyma gyllidebau gros Adrannau'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd yn 2016/17:



# Cynnal sgwrs hefo pobl Gwynedd

Mae cynnal sgwrs efo pobl Gwynedd yn hynod o bwysig i Gyngor Gwynedd a hynny er mwyn dod i ddeall dyheadau a blaenoriaethau ein pobl a'n cymunedau yn well. Gellir defnyddio'r wybodaeth wedyn i lywio'r hyn sydd angen ei wneud.




Yn yr hinsawdd ariannol bresennol mae cynnal y sgwrs yn bwysicach wrth i'r Cyngor wynebu heriau a phenderfyniadau anodd. Un enghraifft o gynnwys pobl Gwynedd oedd *Her Gwynedd* pan wahoddwyd pobl leol i ddweud eu dweud ar 118 o opsiynau posib ar gyfer torri gwasanaethau er mwyn arbed arian a chau'r bwlch ariannol. Canlyniad y gwaith hwnnw oedd cytundeb ar ganran uchel iawn o ddewisiadau i arbed arian.

Ond yr her i ni fel Cyngor ydy sut i gynnal y sgwrs a chynnwys cynifer â phosib o bobl a chymunedau ac adlewyrchu'r amrywiaeth sydd yn ein plith. I geisio gwneud hynny, defnyddir ystod eang o ddulliau.

Mae **Panel Trigolion Gwynedd** yn grŵp cynrychiadol o tua 1,200 o bobl Gwynedd sy'n cael cyfle rheolaidd i ddweud eu dweud ar wasanaethau lleol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gynllunio, darparu ac adolygu ein gwasanaethau lleol. Mae aelodaeth y Panel yn adlewyrchu poblogaeth y sir o ran oedran, rhyw, iaith a lleoliad daearyddol.

Ar gyfer carfannau penodol o bobl defnyddir **grwpiau ffocws** er mwyn trafod pynciau penodol yn fwy manwl. Daeth 51 o bobl ifanc ynghyd i ddiwrnodau 'Dweud eich Dweud' yn y Bala, Caernarfon a Phwllheli i drafod dyfodol gwasanaethau pobl ifanc.

Caiff **cyfarfodydd cyhoeddus** eu cynnal hefyd sy'n rhoi cyfle i bobl drafod a chwestiynu opsiynau neu newidiadau cyn penderfynu.



Dull a ddefnyddir fwy fwy yw'r **dechnoleg newydd** i gynnal deialog. Gall hynny fod ar ffurf holiadur ar-lein, clipiau fideo, negeseuon ar wefannau cymdeithasol a gweithredu'n fyw. Mae gan y Cyngor bron i 20,000 o ddilynwyr *Twitter* a *Facebook*. Ymatebodd 1,471 o bobl Gwynedd i arolwg ar safon strydoedd Gwynedd.

Er hyn, ni ellir diystyru'r dulliau mwy traddodiadol megis Y Wasg a holiadur papur. Y nod ydy cyrraedd amrywiaeth o bobl gan gynnwys grwpiau nodwedd cydraddoldeb drwy'r dulliau sydd orau iddynt.

Ond, rydym yn hollol ymwybodol fel yna le i fynd eto cyn y byddwn yn cyrraedd pen y daith yn y maes hwn ac mae gennym gynlluniau ar gyfer gwella ymhellach.

Mae barn pobl Gwynedd yn bwysig i ni. Mae'n bwysig hefyd ein bod ni fel Cyngor yn adrodd yn ôl ar y sylwadau ac yn rhoi gwybod i bobl beth oedd y penderfyniad terfynol a pham.

Plîs wnewch chi ein helpu felly a manteisio ar bob cyfle i ddweud eich dweud!

www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori

twitter.com/CyngorGwynedd

facebook.com/CyngorGwyneddCouncil

# Bodlonrwydd pobl Gwynedd

**1,144** o bobl Gwynedd wedi cwblhau holiadur am eu bodlonrwydd.

Dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud...

## Gwynedd - lle da i fyw?

74% 9% 17%

## Bodlon gyda gwasanaethau'r Cyngor?

59% 14% 27%

**Trefniadau Gwastraff ac Ailgylchu (313 o sylwadau)**

**Prif bryderon trigolion oedd materion yn ymwneud a chasglu gwastraff ac ailgylchu ond mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos fod mwy na 61% o wastraff y sir bellach yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio.**

**Safon strydoedd (228 o sylwadau)**

**Mae trigolion yn pryderu am safon y strydoedd yng Ngwynedd ond er hyn mae'r adroddiad "Pa mor lân yw ein strydoedd" 2016/17 gan Cadw Gymru'n Daclus yn dangos bod 97.9% o strydoedd Gwynedd yn cyrraedd safon dderbyniol o lanweithdra.**


# Plant a Phobl Ifanc

Mae sicrhau ansawdd addysg fwy cyson ar draws ysgolion y sir, a gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfleoedd wedi parhau yn flaenoriaeth ar gyfer 2016-17. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld ffrwyth llafur nifer o brosiectau sy'n mynd i'r afael â thrawsnewid y gyfundrefn addysg yn y sir a gwella canlyniadau ar gyfer ein plant a phobl ifanc.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gysoni safonau addysg ym mhob ysgol yn y sir a hynny trwy herio a thargedu pynciau a meysydd penodol sydd angen sylw pellach. Gwelwyd cynnydd da ym mherfformiad ein hysgolion ar draws y Cyfnodau Allweddol.

Yn ein ysgolion **Uwchradd**, mae perfformiad yn dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) gyda 92% o ddisgyblion yn cyrraedd lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r cynnydd cadarnhaol yn y perfformiad yma ers 2012 yn parhau i osod Gwynedd ymhlith awdurdodau gorau Cymru.


Yn yr un modd, mae ein perfformiad yn parhau i fod yn gadarn erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) gyda 65.9% o ddisgyblion 16 oed yn ennill 5 gradd TGAU *A-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Yn ystod 2017/18, mae'n fwriad gennym i wella'r perfformiad a chodi'r safonau ymhellach trwy dargedu pynciau penodol sy'n tanberfformio yn ein hysgolion.




Rydym yn ymwybodol bod angen gwneud gwaith pellach i wella deilliannau i blant yn y Cyfnod Sylfaen (7 oed) yn ein hysgolion **Cynradd.** Mae'r nifer o blant sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig yn 7 oed wedi bod yn sefydlog ers 2012 felly mae'n fwriad gennym i ganolbwyntio ar y maes yma yn ystod 2017-18.

Mae arolygiadau Estyn o Ysgolion Gwynedd wedi bod yn gadarnhaol am y flwyddyn hon. Bellach, nid oes yr un ysgol mewn categori mesurau arbennig a dim ond 2 ysgol sydd mewn categori monitro (meysydd pwysig i'w gwella) gan Estyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd eto yng nghanran presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd, gyda'r ganran o 95.16% yn rhoi Gwynedd yn gyntaf yng Nghymru. Er bod ffigwr presenoldeb wedi cynyddu i 95.46% yn ein hysgolion cynradd hefyd, byddwn yn canolbwyntio ar godi'r ffigwr yma eto yn 2017-18.



Rydym yn falch o weld ffigyrau sy'n dangos bod nifer y disgyblion sy'n gadael ysgol yn 16 oed ac sydd ddim yn mynd i addysg, hyfforddiant neu waith wedi disgyn i 1% (13 o bobl ifanc) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dangos lleihad sylweddol o'r ffigwr o 3% yn 2012. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r ysgolion, gwasanaeth ieuenctid a phartneriaid eraill i ostwng y ffigwr yn 2017-18.

Er mwyn hyrwyddo addysg o'r ansawdd orau rydym wedi blaenoriaethu gwaith i wella ansawdd arweinyddiaeth yn ein hysgolion. Mae'r gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr a Rheolwyr wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn gyda rhaglenni hyfforddiant yn derbyn adborth cadarnhaol gan Benaethiaid ac Uwch Reolwyr. Rydym hefyd wedi cychwyn adnabod arweinyddion y dyfodol. Flwyddyn nesaf mae'n fwriad gennym i adeiladu ar y gwaith yma a chanolbwyntio ar wella ansawdd arweinyddiaeth ganol yn ein hysgolion uwchradd yn enwedig.

Rydym eisoes wedi cyflwyno ein rhaglen rhwydwaith ysgolion hyfyw, sy'n symud yn ei flaen yn dda. Ers 2012, rydym wedi sicrhau buddsoddiad o £56 miliwn yn y rhaglen ysgolion hyfyw er mwyn sicrhau'r amgylchedd ddysgu gorau i blant a phobl ifanc Gwynedd.

**"Mae'r holl broses wedi bod yn brofiad cyffrous iawn i ddisgyblion a staff oherwydd iddynt gael cyfle i weld y safle ar wahanol gyfnodau o'i ddylunio a'i adeiladu. Mae'r plant a'r staff wrth eu boddau yn eu hysgol newydd. Rwy'n credu'n gryf y bydd disgyblion yn elwa'n fawr o'r adeilad newydd a'r cyfleusterau gwych sy'n cael eu cynnig."**

**Pennaeth Ysgol Hafod Lon**

Agorwyd Ysgol Hafod Lon, sy'n addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd, ym mis Hydref 2016. Mae'r ysgol newydd sydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ystafelloedd dosbarth modern gyda'r adnoddau diweddaraf, yn ogystal â phwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd ac ardal chwarae awyr agored. Mae cynnydd da wedi ei wneud gyda safleoedd eraill yn ogystal, gydag Ysgol Glancegin yn agor mis Hydref 2017 a gwaith yn parhau yn ardal Ysgolion y Gader a'r Berwyn.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau gyda'r broses o weddnewid y ddarpariaeth ar gyfer oddeutu 4,000 o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd. Mae cyflymder y prosiect yma wedi bod tipyn yn arafach na'r hyn a ddisgwyliwyd ond rydym bellach wedi cytuno i gydweithio gyda Chyngor Môn i fabwysiadu'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn rhoi sylw i'r blynyddoedd cynnar a sefydlu tîm canolog o bobl broffesiynol gydag arbenigeddau penodol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar sefydlu Gwasanaeth newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd a Môn.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein cyfrifoldebau o y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddf wedi bod yn weithredol ers Ebrill 2016 ac mae'n gosod cyfrifoldebau arnom i ddatblygu agwedd ataliol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r prosiect Ymyrraeth Gynnar/Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd wedi bod yn flaenoriaeth i 'r Cyngor ers 2015.

Rydym eisoes wedi cynnal asesiad o anghenion sydd wedi eu hadnabod a meysydd penodol sydd angen eu targedu wrth gynllunio ymyrraeth gynnar i'r dyfodol. Mae'r meysydd yma yn cynnwys: Oediad Iaith a Llefaredd, Rhiantu a Chefnogaeth Ymddygiad, Mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl, a Chefnogaeth i Bobl Ifanc yn eu Harddegau




Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn cefnogi plant a theuluoedd dwy gynnig mynediad i wasanaethau yn y gymuned neu drwy wasanaeth sy'n cael ei gydgordio drwy Dîm Gyda'n Gilydd. Mae'r Tîm Gyda Gilydd yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau nad yw'r problemau sydd yn eu hwynebu yn mynd yn fwy dwys a chymhleth.

Er bod cynnydd da iawn eisoes oherwydd gwaith ein timau Dechrau Deg a Gyda'n Gilydd a'n partneriaid ehangach, mae datblygiad yn erbyn addewidion ein Cynllun Strategol wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Ond wrth edrych i ail comisiynu gwasanaethau sydd yn cael eu hariannu drwy grant Teuluoedd yn Gyntaf, mae cyfle yma ni i osod cyfeiriad a blaenoriaethau newydd, uchelgeisiol ac arloesol i gefnogi pobl ifanc a theuluoedd yng Ngwynedd.

**"Jyst isio deud diolch am bob dim, da chi di mynd above and beyond i fi ac fy mhlentyn, ac mae'n golygu lot i ni, felly diolch o'n calon."**


**Teulu Un Plentyn.**

# Gofal


Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth agos gyda defnyddwyr, teuluoedd, gofalwyr anffurfiol a chymunedau. Er mwyn ymateb i'r heriau amlwg yn y maes Gofal mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n effeithiol, a hynny'n lle'n briodol, yn integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Prosiect 'Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion' wedi canolbwyntio ar ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio i sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae Tîm Integredig Ysbyty Alltwen wedi bod yn weithredol ers 2015 ac wedi uno arbenigwyr o'r meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd. Mae'r prosiect yma wedi gosod sylfaen cryf ar gyfer ymestyn model gwbl integredig er mwyn darparu gwasanaethau gofal oedolion ar draws Gwynedd.

Er mwyn parhau i gynnig gofal i'n trigolion mewn amgylchedd sy'n gweddu iddynt, mae'n hanfodol fod cysylltiadau naturiol yr unigolyn gyda theulu neu gymuned yn cael eu defnyddio. Rhan allweddol o sicrhau fod y gefnogaeth yma ar gael yn ein cymunedau yw'r angen i wella dealltwriaeth pobl Gwynedd o'r ffordd y gall cymunedau gefnogi pobl i fyw yn hirach yno. Er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu, rydym yn ystod y flwyddyn wedi bod yn cynnal amryw ddigwyddiad ymgysylltu gyda'n dinasyddion a'n partneriaid, ac wedi bod yn trafod ateb y galw i'r dyfodol.




Er mwyn helpu unigolion i fyw eu bywydau fel ag y maent eisiau, mae angen gallu cynnig opsiynau lletya amrywiol ar draws y Sir sy'n diwallu anghenion ein trigolion. Mae'r gwaith cyffrous o adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog wedi symud yn ei flaen yn ystod y flwyddyn, a'r cyfan i fod yn barod yn ystod y flwyddyn nesaf. Rhagwelir y bydd y fflatiau arddangos yn barod ym mis Awst 2017 a diwrnod agored yn cael ei drefnu yn sgil hynny. Mae datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ar safle Frondeg yng Nghaernarfon wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn wrth ymgysylltu gyda'r teuluoedd a sicrhau eu cyfraniad wrth gynllunio'r ddarpariaeth newydd.




Un o'r prif faterion sydd yn peri pryder i'r Cyngor ydi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ein cartrefi nyrsio ar draws y Sir o fewn cyd-destun sector bregus iawn. Mae'r sefyllfa wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio, gyda chynnydd yn y gyfradd oedi o 2.38% yn 2015/16 i 4.44% yn 2016/17. Er hyn, mae perfformiad Gwynedd yn gyfatebol â chyfartaledd Cymru, ond rhaid cydnabod bod gennym le i wella. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu sefyllfa bresennol y system iechyd a gofal. Mae'n adlewyrchu'r galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwlâu nyrsio yn y gymuned a hefyd prinder capasiti a ran gweithiwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd.

Er bod recriwtio i'r gweithlu gofal a nyrsio yn parhau yn hynod heriol, mae ymdrechion i ddenu a chadw gweithiwyr yn parhau ac yn awr yn cael eu dwysau. Mae digwyddiadau recriwtio a sesiynau codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaol yn parhau, ac ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd mae rhaglen yn cael ei pharatoi i wneud gwell defnydd o wefannau cymdeithasol ar gyfer recriwtio.

Mae'r Cyngor wrthi'n cynllunio a chydweithio gyda'i bartneriaid er mwyn goresgyn y rhwystrau sydd yn bodoli yn y maes yma. Mae'r prosiect 'Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn Gofal ac Iechyd' yn ceisio ymateb i broblemau cyfredol o ran darpariaeth o fewn y maes pobl hŷn yn bennaf. Ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Ynys Môn mae gwaith wedi ei gomisiynu yn ystod y flwyddyn i ymateb i rai o'r rhwystrau. Bydd y gwaith yn edrych ar argaeledd ac ansawdd darparu gwasanaethau gofal yn y Gogledd Orllewin. Bydd y tri chorff cyhoeddus yn gweithio'n agos gyda'n prif randdeiliaid yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r gwaith ar brosiect Llys Cadfan wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ac mae unigolion wedi cychwyn symud i'r Uned Dementia Cynnar newydd yno. Bydd y ddarpariaeth yma yn hwyluso bywydau defnyddwyr a'u teuluoedd ac yn golygu nad oes angen iddynt adael eu cynefin a theithio milltiroedd ar filltiroedd i dderbyn y gefnogaeth arbenigol dan sylw. Er bod ychydig o lithriad wedi bod i'r rhaglen gwella gwasanaethau arbennig ac ysbaid yn Ne'r Sir, hyderwn bydd y ddarpariaeth newydd ar gael yn ystod y flwyddyn yma.

Ar y cyfan mae'r mesurau perfformiad yn awgrymu fod y gwasanaeth ar y trywydd cywir. Mae gostyngiad i'w weld eto eleni yng nghyfradd y bobl sydd yn dewis derbyn cefnogaeth draddodiadol yn y gymuned ac hefyd yn ein cartrefi preswyl. Mae'r tuedd cadarnhaol hwn yn awgrymu ein bod fel Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i gynllunio'r gofal sydd ei angen ar ein trigolion i'r dyfodol.




Pobl yn derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal

# Diogelu

Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion bregus yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Ers sawl blwyddyn bellach mae'r Cyngor wedi adnabod y maes pwysig hwn fel mae blaenoriaeth, ac wedi adolygu trefniadau corfforaethol er mwyn sicrhau bod trefniadau cadarn ac addas yn eu lle.

Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn rhoi sylw penodol i faterion corfforaethol a statudol o ran diogelu. Mae'r blaenoriaethau yma hefyd wedi eu hymgorffori o fewn Cynllun Strategol y Cyngor. Mae 3 prif brosiect wedi eu comisiynu mewn ymateb i rai o'r heriau sydd wedi wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, sef Sicrhau Perchnogaeth Cyngor Cyfan i'r maes diogelu, Diogelu Plant a Phobl Ifanc a Diogelu Oedolion Bregus.

Mae ymdrechion yn parhau o ran gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi sicrhau ein bod wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau diogelu ar draws ein holl wasanaethau, gyda llawer o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi ei wneud ar draws yr holl weithlu. Rydym yn cynnal awdit blynyddol i fesur effaith a gwelliant mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r maes diogelu ymysg y gweithlu, ynghyd â chynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau fod ein trefniadau ni'n gadarn yn y maes. Mae'r Awdit Ymwybyddiaeth wedi dangos eleni bod cynnydd wedi bod yn lefelau o ymwybyddiaeth o'r Polisi a Gweithdrefnau Diogelu.




Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Lles wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o'r holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fod yn ragweithiol er mwyn ymateb yn briodol ac effeithiol i bryderon sy'n codi. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod oll mewn sefyllfa gyffelyb. Cynhaliwyd cyfarfod hefo Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gychwyn mis Mawrth 2017 ac wrth gydnabod bod gwaith i'w wneud, a bod her o'n blaenau, cafodd y trefniadau arfaethedig eu disgrifio fel newidiadau 'cyffrous'. Mae'r adborth yma yn galonogol iawn ar ddechrau cyfnod o newid.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sicrhau ein bod yn deall tueddiadau sy'n ymwneud ag Ecsploetio Plant yn Rhywiol yng Ngwynedd (CSE). Rydym wedi adolygu ein trefniadau gweithredol ac wedi sicrhau eu bod yn cyd-fynd â threfniadau rhanbarthol. Rydym hefyd wedi sicrhau bod gennym drefniadau casglu gwybodaeth cadarn sy'n gwella ein dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r maes diogelu arbennig hwn. Cynhaliwyd hyfforddiant aml-asiantaethol yn ystod y flwyddyn gan arbenigwr yn y maes i ddatblygu sgiliau adnabod arwyddion CSE a sut i adnabod bregusrwydd mewn unigolion sy'n agored i gael eu hecsploetio. Rydym hefyd yn parhau i gyfrannu at y maes gwaith yma yn rhanbarthol a Chenedlaethol.

Mae'r Panel Diogelu Strategol yn ddiweddar wedi ehangu eu ffocws ac wedi ychwanegu'r agenda 'PREVENT' at eu maes gwaith. Hon yw rhaglen y Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio. Mae'r agenda caethwasiaeth fodern hefyd yn fater sy'n cael sylw.




Mae ein mesurau yn y meysydd oedolion a phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2016/17. Gwelwyd eto eleni bodyr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn wedi llwyddo i reoli'r perygl 100% o'r amser.

O ran diogelu plant yn benodol, mae'r gyfradd o asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn awgrymu perfformiad cadarn eto – 94% yn 2016/17 o'i gymharu â 97% yn 2015/16.

# Tlodi, Amddifadedd, Economi a Thai

Mae'r her sy'n wynebu economi Gwynedd yn fawr. Mae strwythur yr economi yn parhau i fod yn gul, gyda'r cyfleon gwaith yn parhau i fod yn or-ddibynnol ar y sector gyhoeddus. Mae materion megis cyflogau isel, a sicrhau bod gennym weithlu gyda'r sgiliau perthnasol i fyd gwaith yn bethau allweddol sydd angen canolbwyntio arnynt. Felly hefyd mae angen bod yn greadigol wrth oresgyn rhwystrau daearyddol neu dechnolegol all ei gwneud hi'n anoddach i rai o'n trigolion gymryd rhan yn byd gwaith.

Gan nad ydi rôl y sector breifat yn gryf mewn ardal wledig ei natur fel Gwynedd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol drwy weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddenu buddsoddiad i'r ardal. Mae momentwm y gwaith i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws clir ar ddenu adweithydd bychan i Drawsfynydd, ac i ddatblygu canolfan awyrofod yn Llanbedr.

Mae'n rhy fuan i weld effaith y buddsoddiadau yma ar drigolion a busnesau Gwynedd, ond mae'r gwaith yn gosod sylfeini cadarn sy'n mynd i ddenu buddsoddiadau trawsffurfiol i'r ardal dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r potensial o greu oddeutu 200 o swyddi. Rydym wedi diogelu swyddi gwerth uchel yn y Sir yn ogystal trwy sicrhau parhad di-dor yn rhaglen dad-gomisiynu Atomfa Trawsfynydd gan warchod 250 o swyddi yn ardal Meirionnydd.

Bellach, rydym wedi adnabod y sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel sef Ynni, Digidol a Chreadigol. Datblygwyd pecyn o ddeunyddiau marchnata ar gyfer y sectorau a bu i ni sefydlu rhwydweithiau busnes i'w cefnogi ymhellach.

Mae'r gwaith o ddenu mewnfuddsoddiad yn waith hirdymor, ond ers 2012 rydym wedi cefnogi dros 100 o ddarpar fuddsoddwyr yn y sir sydd wedi arwain at greu 76 o swyddi gwerth uchel.





Rydym hefyd yn parhau i ddenu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o hynny. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd buddsoddiad o £6.7m miliwn i'r economi o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiogelu 298 o swyddi yn y sir.

Mae sicrhau isadeiledd i dechnoleg a chyfathrebu safonol ledled Gwynedd, a chefnogi busnesau a thrigolion i fanteisio arno, yn parhau yn flaenoriaeth. Mae Band-eang cyflym bellach ar gael i 83% o gartrefi a safleoedd busnes yng Ngwynedd, sy'n uwch nag mewn siroedd cyffelyb (Ceredigion, Powys a Sir Gâr), gyda 41% o'r rhai sy'n gallu ei dderbyn eisoes yn manteisio arno - yr uchaf yng Nghymru. Er bod y ffigyrau yma yn galonogol, byddwn yn canolbwyntio ar wella perfformiad ymhellach trwy annog a hwyluso mynediad busnesau i'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae sicrhau cynaladwyedd cymunedau gwledig yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym wedi sicrhau cyllideb o £4miliwn o Raglen Datblygu Wledig Cymru i ddatblygu dulliau newydd, arloesol o ymateb i heriau Gwynedd wledig. Mae'r arian yma wedi ein galluogi i greu ystod o ddatblygiadau cyffrous sy'n cael eu treialu ar hyd a lled y Sir (wele fideo o uchafbwyntiau'r flwyddyn yma LINK).

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith o weithredu rhaglen o gynlluniau i leihau effaith tlodi yn y Sir. Yn ystod y flwyddyn, mae 558 o drigolion Gwynedd yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi derbyn cymorth gyda'i sgiliau ymdopi gydag incwm y cartref a dyledion. Wrth gynnig y cymorth yma, mae oddeutu £300,000 o ddyledion gan drigolion wedi'i eu rheoli yn llwyddiannus. Mae sylw hefyd yn cael ei roi i weithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleon gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd prosiect OPUS sy'n targedu unigolion bregus di-waith a chynnig pecyn cefnogaeth a sgiliau iddynt gamu yn nes tuag at y byd gwaith.

Yn ogystal, derbyniwyd cyllideb o £659,887 gan Lywodraeth Prydain ar gyfer gwneud Taliadau Tai Dewisol yn ystod y flwyddyn, a ffurfiwyd Polisi Tai Dewisol o ganlyniad. Defnyddiwyd yr arian yma i gefnogi 1,534 o aelwydydd i liniaru'r effaith a achoswyd gan ystod o ddiwygiadau lles y Llywodraeth.




Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai sydd ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Mi fydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd. Yn ystod y flwyddyn mae'r adran Tai wedi llwyddo i dod a 54 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ac mae'r rhain wedi eu defnyddio i roi llety i bobl a enwebwyd gan yr Uned Digartrefedd.

Mae peth llithrant i'r rhaglen datblygu darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref a bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod 2017/18 i ddatblygu model amgen a sicrhau darpariaeth gwahanol ar gyfer pobl ddigartref. Fodd bynnag, mae ein hymdrechion cyffredinol i atal digartrefedd wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r mesurau perfformiad cenedlaethol yn atgyfnerthu hyn. Rydym wed i canolbwyntio ar geisio atal digartrefedd yn y lle cyntaf drwy gynorthwyo a chynnig sefydlogrwydd i nifer o deuluoedd mewn cyfnod anodd.

Mae cynnydd yn erbyn ein addewidion wedi bod yn arafach na'r gobaith yn ystod 2016/17. Er hyn rydym wedi ymgynghori ar draws Gwynedd ar Gynllun i gynyddu nifer o dai Lleol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno ceisiadau cynllunio mewn 3 ardal penodol am dai rhent canolraddol a thai fforddiadwy i'w prynu, byddai hyn yn creu oddeutu 39 o gartrefi yng Ngwynedd.

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith i uchafu gwariant gyda busnesau lleol, ac yn ystod 2016/17 roedd gwariant y Cyngor ar nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol yn werth dros £47m (ffigyrau i ddiwedd Rhagfyr 2016?) i'r economi leol.

Bu i ni gynnig cefnogaeth i 40 o gwmnïau yn ystod y flwyddyn trwy amrywiol weithgareddau fydd yn eu cynorthwyo i gystadlu am gytundebau gyda'r Cyngor ac eraill.

Fel rhan o'r prosiect i adeiladu Ysgol Dalgylch y Berwyn mae 53% o'r is-gontractau wedi eu gweithredu gan gwmnïau o fewn 30 milltir i'r safle, gyda'r ganran yn 43% yn Ysgol Glancegin, Bangor. Mae hyn yn gyfwerth â £2.9m. Yn ogystal, mae nifer o fuddion cymdeithasol wedi deillio o brosiectau o'r fath gan gynnwys cynnig cyfnodau o brofiad gwaith i fyfyrwyr lleol, prentisiaethau a chreu gwaith gyda chontractwyr yn lleol.

Ers cychwyn y prosiect mae £1miliwn o arbedion wedi eu cyflawni ac mae sylfeini wedi eu gosod i drefn gaffael, neu brynu gwasanaethau a nwyddau newydd yn y Cyngor. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i gael y cydbwysedd cywir rhwng gwneud arbedion ariannol a sicrhau fod buddion lleol yn deillio o'n penderfyniadau caffael.

# Y Gymraeg

Mae Gwynedd wedi bod yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg erioed, ond gwelwyd gostyngiad graddol yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd gostyngiad o 846 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef -3.5% o'i gymharu â Chyfrifiad 2001. Er bod elfen o ansicrwydd yn bodoli ynghylch yr effaith y gallwn ei gael i atal y dirywiad, fel sefydliad rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar waith o fewn cymunedau, ysgolion a sefydliadau cyhoeddus yn y lle cyntaf.

Mae yna amryw o resymau yn milwrio yn erbyn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa rydym wedi bod yn cydweithio hefo cymunedau Bangor, Dolgellau, Porthmadog a Phwllheli er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Yn ystod 2016/17 rydym wedi parhau gyda'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y cymunedau gan gwblhau 107 o brosiectau sydd wedi rhoi cyfle i fynychwyr brofi digwyddiadau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, ym Mangor gwelwyd agoriad canolfan iaith Popdy a phenodi Rheolwr a Swyddog Datblygu ar gyfer y Fenter Iaith sy'n cael ei weld fel ffocws i gynnal ac atgyfnerthu'r iaith yn y ddinas.

Er ei bod yn anodd sefydlu os yw defnydd o'r iaith wedi cynyddu o fewn y cymunedau fe welir arwyddion o lwyddiant o safbwynt hybu a chynyddu statws y Gymraeg, ond mae angen gwneud gwaith pellach. Yn y dyfodol byddwn yn ymgysylltu â grwpiau penodol o fewn y gymuned a cheisio mynd i'r afael â difaterwch rhai siaradwyr Cymraeg ynghylch yr iaith.

Dinesydd Dolgellau

"Mae hi mor braf gweld y dref yn fwrlwm....diolch i Hunaniaith am yr hwb....'dan ni isio cadw hyn i fynd!"

Ar hyn o bryd ceir anghysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu hefo cyrff cyhoeddus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal asesiad er mwyn canfod ar ba lefel y mae pob corff cyhoeddus o ran eu gallu i gynnig y cyswllt cyntaf i ddinasyddion Gwynedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd wedi adnabod yr oblygiadau i'r gwahanol gyrff o weithredu newidiadau er mwyn cyflawni'r nod o ddarparu gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog.

hunaniaith
Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd
Promoting the Welsh Language in Gwynedd

Mae cynnydd y gwaith wedi bod rhywfaint yn arafach na'r oeddem wedi ei ragweld.Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd y byddwn yn gallu symud y mater yma yn ei flaen yw drwy gael ein partneriaid i ddod gyda ni, ac mae hynny'n cymryd amser. Mae yna lawer o amser ac ymdrech wedi ei fuddsoddi er mwyn sicrhau fod y cyrff yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ymrwymo iddo ac nad oes disgwyliadau afrealistig yn cael eu gosod. O ganlyniad, y gobaith yw y bydd hyn yn gosod sylfaen gadarn i waith y prosiect i'r dyfodol.

Fel dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith sydd wedi bod yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd penderfynwyd canolbwyntio ar ddatblygu'r gwaith yn yr ysgolion uwchradd yn ystod 2016-17. Bellach, mae gennym strategaeth yn ei lle sy'n gosod disgwyliadau ac yn rhoi arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir. Mae'n cynnwys technegau newid arferion iaith, a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

Yn 2017-18 rydym yn bwriadu llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd i hyrwyddo gwerth a manteision dwyieithrwydd.

Er bod Cyngor Gwynedd ar flaen y gad wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith fyw rydym yn awyddus i wthio'r ffiniau ymhellach gan sicrhau fod hynny'n digwydd yn gyson ar draws ein holl wasanaethau.

Rydym wedi adnabod bylchau sy'n bodoli o ran ein darpariaeth iaith Gymraeg. Er mwyn ymateb i'r bylchau mae gwaith dwys wedi ei wneud gyda 4 Adran o fewn y Cyngor (Economi a Chymuned, Oedolion, Iechyd a Lles, Rheoleiddio ac Ymgynghoriaeth Gwynedd) gyda chynlluniau gweithredu wedi eu datblygu er mwyn gwella'r sefyllfa. Yn ogystal, mae cyfres o weithgareddau wedi eu hadnabod ar lefel gorfforaethol a byddwn yn gweithredu arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.


# Yr Amgylchedd

Mae gan Wynedd amgylchedd naturiol o safon uchel ac mae yna nifer o heriau o geisio sicrhau ein bod yn gwarchod yr amgylchedd honno. Ar yr un pryd rhaid i ni sicrhau nad ydym yn llesteirio gallu ein trigolion i fyw a ffynnu o fewn y sir.


Ers rhai blynyddoedd bellach mae pwyslais wedi ei roi ar yr angen i leihau ein dibyniaeth ar dirlenwi gwastraff gan waredu ein gwastraff mewn ffordd fwy amgylcheddol gyfeillgar trwy gynyddu lefelau compostio ac ailgylchu.

Erbyn hyn mae'r drefn o gasglu'r bin gwyrdd bob 3 wythnos yn weithredol ar draws y Sir. Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r Sir i leihau eu gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn yn y drefn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad. Ar ddiwedd 2016/17 mae 62.34% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ail ddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, sy'n gynnydd o dros 8% yn y cyfraddau ers 2013/14. Yn 2015/16 roeddem yn y 16eg safle (allan o 22) ymysg awdurdodau lleol Cymru gyda chyfradd ailgylchu/compostio o 58.70%.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at y gwelliant, ac er bod y cyfraddau wedi lleihau rhywfaint i 40.5% yn 2016/17 o'i gymharu a 41.44% ar ddiwedd 2015/16 mae'n bwysig cofio mai 30.79% yn unig oedd y gyfradd ailgylchu gan fusnesau yn 2013/14.




Byddwn yn parhau i weithredu'r Strategaeth Wastraff yn y dyfodol gyda'r bwriad i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 64% o'r gwastraff o'n cartrefi erbyn 2020.



Mae glendid ein strydoedd yn fater sydd o bwys i bobl Gwynedd a gwelwyd safonau glendid ein strydoedd yn sgorio 75.7 allan o 100 mewn asesiad gan Arolygwyr annibynnol sy'n gymharol â sgôr o 76.26 yn 2015/16 ac yn welliant o'i gymharu â 73.5 yn 2013/14.




Caiff allyriadau carbon yng Ngwynedd effaith niweidiol ar yr amgylchedd lleol yn ogystal â chyfrannu tuag at effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel byd eang. Yn y cyd-destun hwn gellir dadlau mai dim ond bychan iawn yw cyfraniad y Cyngor a phobl Gwynedd, ond mae'n bwysig ein bod yn chwarae ein rhan trwy leihau ein hallyriadau carbon ar lefel briodol.

Trwy leihau defnydd o ynni yn ein hadeiladau, goleuadau stryd, uwchraddio goleuadau, gosod paneli solar a lleihau teithiau busnes rydym wedi llwyddo i leihau ein ôl troed carbon o 26.20% ers 2005 ac wedi llwyddo i gyflawni arbedion ariannol cronnus o £3.09 miliwn ers cychwyn gwireddu'r cynllun. Mae hyn yn golygu fod pobl Gwynedd yn cael budd yn amgylcheddol ac o'r arbedion ariannol.

Un o sgil effeithiau newid hinsawdd yw'r cynnydd tebygol yn y perygl o lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dechrau ar broses i ddatblygu cynlluniau atal llifogydd mewn 7 cymuned arfordirol a fyddai'n arwain at warchod hyd at 1,138 eiddo. Os y bydd ceisiadau am adnoddau ariannol yn llwyddiannus yna bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn datblygu cynlluniau manwl.

Yn ystod 2016/17 mae'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn, fydd yn gosod y fframwaith ar gyfer ceisiadau Cynllunio i'r dyfodol. Mae'r Arolygaeth Cynllunio yn ystyried cadernid y cynllun a disgwylir adroddiad ganddynt yn fuan. Bydd y Cynllun yn barod i'w fabwysiadu yn ystod haf 2017.

Mae ein perfformiad wrth ddelio gyda cheisiadau Cynllunio yn aros yn dda gyda cheisiadau yn cymryd 59.26 diwrnod ar gyfartaledd i'w penderfynu o'i gymharu â 60 y llynedd.

# Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Er gwaethaf y wasgfa ariannol, amcan y Cyngor yw gwneud yn siŵr fod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio i roi'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

Mae'r gwaith o geisio sicrhau diwylliant cyson ar draws y Cyngor a'r egwyddor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn parhau. Nodir bod amser ac ymdrech wedi ei fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau fod y deunydd cywir ar gael gennym i hyrwyddo'r egwyddorion, i hyfforddi Uwch Swyddogion yn yr egwyddorion a gweithredu'r rhaglen ar gyfer datblygu arweinwyr. Erbyn hyn rydym yn treialu ffordd newydd o weithio o fewn 8 gwasanaeth yn y Cyngor.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, a bod newid diwylliant mewn sefydliad mawr fel y Cyngor am gymryd amser, gwelir rhywfaint o dystiolaeth fod ymwybyddiaeth wedi gwella ymysg aelodau staff ac enghreifftiau lle mae treialu ffyrdd newydd o weithio wedi arwain at wella gwasanaeth i bobl Gwynedd.



Byddwn yn parhau i roi pobl Gwynedd yn ganolog yn ystod 2017/18 gan ganolbwyntio ar newid diwylliant, treialu ffyrdd newydd o weithio o fewn unedau gwasanaeth, a chynnal rhaglen hyfforddiant i holl Reolwyr y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn daeth yn amlwg efallai nad oedd yn bosib bob tro i ddefnyddio'r un dulliau ar gyfer datblygu aelodau etholedig ag y defnyddir ar gyfer swyddogion, a bydd angen adolygu ein trefniadau yn y maes yma. Serch hynny mae yna ymdeimlad ac elfen o dystiolaeth fod safon arweinyddiaeth wedi gwella o fewn y Cyngor dros y blynyddoedd.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o adolygu'r gyfundrefn berfformiad o fewn y Cyngor yn ystod 2016/17 ac erbyn hyn mae mesurau perfformiad y gwasanaethau yn canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae camau breision wedi eu cymryd i wella ein trefniadau ac yn y flwyddyn nesaf byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau fod y mesurau yn ystyrlon ac yn cael eu defnyddio er mwyn rheoli a gwella perfformiad.

Mae gwaith wedi parhau er mwyn gwella'r ffordd mae'r Cyngor yn casglu barn a thrafod gyda pobl Gwynedd. Rydym wedi ganolbwyntio ar gynlluniau ymgysylltu lefel uchel megis Arolwg Cyhoeddus Haf 2016 (Bodlonrwydd), ymgynghori ar godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac ymgynghori ar godi ffi am gasgliadau gwastraff gardd.


Dros y blynyddoedd diwethaf mae bron i 23,000 o unigolion a sefydliadau wedi cael cyfle i gyfrannu a lleisio barn ar waith a blaenoriaethau'r Cyngor. Rydym yn cydnabod ein bod wedi dechrau o lefel isel a bod lle i wella eto. Ond, er mwyn sefydlu lle'r ydym wedi ei gyrraedd byddwn yn cynnal awdit o allu Adrannau unigol i ymgysylltu'n effeithiol a'u cwsmeriaid yn ystod 2017/18.

Mae'r wybodaeth sydd ar gadw gan y Cyngor am bobl ac adnoddau yn hanfodol a gwerthfawr, ac mae'n ofynnol i ni sicrhau fod ein trefniadau gwaith yn ei gadw'n ddiogel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau gyda'r sesiynau hyfforddi ac awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf ynghylch y nifer o achosion lle nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion diogelu data fod ein trefniadau yn gwella. Roedd 3 digwyddiad yn 2016/17 o'i gymharu a 10 yn 2014/15. Byddwn wrth gwrs yn parhau ein hymdrechion i warchod gwybodaeth sensitif yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn yr oes fodern, mae'n well gan nifer gysylltu am wasanaeth drwy ddefnyddio technoleg a'i wneud ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy. Mae'r system hunanwasanaeth erbyn hyn yn fyw gyda nifer o wasanaethau, megis talu am wasanaeth casgliadau bin gwastraff gardd, yn cael eu cynnig trwy'r cyfrwng hwn yn ogystal a'r ffyrdd mwy traddodiadol. Bydd mwy o wasanaethau yn cael eu cyflwyno i'r system dros y flwyddyn i ddod.

Fe ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym fis Ebrill 2016 a bellach mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru. Mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn gosod pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn ceisio sicrhau gwell penderfyniadau drwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig a chydweithredol a chynnwys pobl o bob oed.

Fel rhan o'n hymateb fel Cyngor i'r Ddeddf, cyhoeddwyd ein Datganiad a'n Hamcanion Llesiant yng Nghynllun y Cyngor 2017/18. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus aml asiantaethol a'r Bwrdd hwnnw fu'n gyfrifol am gydlynu Asesiad Llesiant Gwynedd fis Mai 2017. Ond, y gwaith mawr ydy integreiddio'r pum ffordd o weithio yn ein holl drefniadau gwaith pob dydd yn ffurfiol, a cheisio diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.




# Cynllunio Ariannol

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod hefo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Roeddem wedi adnabod y gallai'r bwlch ariannol dros y cyfnod pedair blynedd hyd at 2017/18 fod gymaint â £50 miliwn. O ganlyniad rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd i gadw effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth.


Nid oedd y gostyngiadau grant ar gyfer 2017/18 gymaint a'r disgwyl. Roedd y bwlch o £50miliwn oedd i'w ddarganfod wedi lleihau i £40 miliwn, drwy gyfuniad o gynnydd canolig yn y Dreth Gyngor a chyflawni arbedion gwerth £31miliwn dros y cyfnod.

Mae'r holl gynlluniau datblygol a nodir yn yr adroddiad yma yn cael eu cyflawni ar yr un pryd ag y mae adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn prinhau.




Mae'r graff yn dangos fod y Cyngor wedi gorfod darganfod bwlch o £39.5m dros y pedair blynedd diwethaf oherwydd chwyddiant; galw ychwanegol am wasanaethau a cholled sylweddol yn y gefnogaeth a roddir i lywodraeth leol gan Llywodraeth Cymru. Ar ôl y cynnydd yn y Dreth Gyngor, golyga hyn ein bod wedi gorfod darganfod £31m o arbedion dros gyfnod o 4 blynedd. Mae hyn ar ben y £31m arall y bu'n rhaid ei ddarganfod yn yr wyth mlynedd cyn hynny.


Mae hyn yn gwneud y gwaith o wella gwasanaethau'r Cyngor lawer anoddach wrth gwrs.




Mae'n allweddol bod y Cyngor yn cadw o fewn y gyllideb, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu tanwariant yn erbyn y gyllideb o £469,000 (neu 0.28%). Ym mhob blwyddyn ers 2013/14 fe welir ein bod wedi llwyddo i gadw o fewn y gyllideb sydd ar gael.



Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw bod £6.15 miliwn pellach o arbedion effeithlonrwydd wedi eu gwireddu trwy newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gan gynnal neu wella safon y gwasanaeth i'r trigolion ar yr un pryd. Mae gwaith pellach i'w wneud o fewn rhai adrannau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cynlluniau yn llawn, yn unol a'u haddewidion.




Yn ychwanegol, mae gennym raglen i ddarganfod a datblygu rhagor o effeithlonrwydd sy'n anelu i sicrhau cyn lleied o doriadau gwasanaeth â phosib. Rydym wedi llwyddo i adnabod cynlluniau gwerth £1.084miliwn yn 2016/17 er mwyn cyfarch bwlch ariannol o £1.082miliwn yn ystod 2017/18.

Ers 2014/15 mae'r Cyngor wedi adnabod gwerth £31miliwn o arbedion gyda £26 miliwn o'r rhain yn arbedion effeithlonrwydd, ac mae gwerth £23.4 miliwn ohonynt bellach wedi eu gwireddu. Trwy gynllunio a gweithredu'n rhagweithiol mae wedi ein galluogi i osgoi gwneud toriadau diangen.

Yn anffodus, fodd bynnag, oherwydd y lleihad mewn grant gan y Llywodraeth, mae'n anorfod ein bod yn gorfod edrych ar dorri gwasanaethau. Yn dilyn cynnal ymgynghoriad 'Her Gwynedd' yn ystod 2015/16, fe gymeradwywyd cyfres o doriadau gwerth £4.9 miliwn oedd yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau. Yn ystod 2016/17 bu i ni weithredu ar doriadau gwerth £2.58miliwn a byddwn yn parhau gyda'r rhaglen wireddu yn ystod 2017/18.

# ATODIAD 2 - MESURAU



* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc** | | | | | |
| Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant **Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch na'u norm datblygiadol | - | - | - | 53 | Ddim yn berthnasol |
| Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 3 oed canran plant **Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch na'u norm datblygiadol | 52 | 57 | 51 | 51 | ⇩ |
| Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn **Dechrau'n Deg | 84 | 82 | 83 | 84 | ⇔ |
| Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant **Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch na'u norm datblygiadol | 57 | 38 | 48 | 89 | ⇧ |
| Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan Tîm o Amgylch y Teulu (Gyda'n Gilydd) | 15.0 | 30.0 | 25.3 | 95.0 | ⇧ |
| Canran y Plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | 79 | 82 | 78 | 79 | ⇔ |
| Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau awyr agored sirol, rhanbarthol a chenedlaethol | - | - | - | 466 | Ddim yn berthnasol |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) | 53.20 | 57.35 | 60.50 | 64.40 | ⇧ |
| Canran y disgyblion 16 oed sy'n ennill trothwy lefel 1 (5 gradd A* - G TGAU) neu gyfatebol | 93.1 | 97.1 | 97.9 | 97.3 | ⇧ |
| Canran disgyblion 15 oed sydd yn ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A* - C TGAU) neu gyfatebol | 81.55 | 87.70 | 88.90 | 85.90 | ⇧ |
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 3.0 | 1.7 | 1.8 | 1.0 | ⇧* |
| Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithro plant o dan 7 oed) | 81 | 83 | 85 | 84 | ⇧ |
| Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.0 | 0.1 | 0.2 | 1.2 | ⇩ |
| Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 6.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | ⇧* |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 86.6 | 86.0 | 89.5 | 89.8 | ⇧ |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 85.40 | 89.11 | 91.30 | 92.00 | ⇧ |
| Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 82.5 | 81.2 | 83.2 | 83.7 | ⇧ |
| Nifer o waharddiadau parhaol mewn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 0 | 0 | 3 | 0 | ⇔* |
| Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 4 | 4 | 3 | 2 | ⇧* |
| Cyfartaledd y sgor pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol | 578.2 | 616.0 | 617.2 | 591.0 | ⇧ |
| Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau **gan** gynnwys eithriadau | 43.1 | 57.4 | 42.4 | 55.0 | ⇧ |
| Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau **heb** gynnwys eithriadau | 96.3 | 100 | 100 | 100 | ⇧ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 94.3 | 95.1 | 95.0 | 95.5 | ⇧ |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 93.6 | 94.2 | 94.6 | 95.2 | ⇧ |
| Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 58.0 | 61.1 | 63.3 | 65.9 | ⇧ |
| Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14 oed) | - | 87.4 | 89.5 | 88.7 | ⇧ |
| Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn drwy'r gwasanaeth ieuenctid | 2,323 | 2,049 | 2,807 | | |
| Canran plant yn mynychu 20 sesiwn 5x60 neu fwy (Canran o blant Ysgolion Uwchradd Gwynedd sydd wedi mynychu unrhyw weithgaredd wedi ei drefnu gan Swyddogion Pobl Ifanc Egniol o leiaf ugain gwaith yn ystod y flwyddyn fel rhan o gynllun 5x60.) | 22.6 | 19.2 | 21.5 | 20.7 | ⇩ |
| Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 y pen o'r boblogaeth | 12,906 | 13,790 | 10,278 | 11,063 | ⇩ |
| Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed | 100 | 100 | 100 | Dim plentyn anabl mewn gofal | Ddim yn berthnasol |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 22.8 | 18.7 | 18.1 | 17.1 | ⇧ * |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 4.9 | 6.2 | 7.7 | 6 | ⇧ |
| Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 94.3 | 93.8 | 91.0 | 91.0 | ⇩ |
| Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 83.7 | 89.0 | 86.9 | 90.0 | ⇧ |
| Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |
| Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal** | | | | | |
| Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal | 54.0 | 45.0 | 55.0 | 59.3 | ⇧ |
| Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | 104 | 121 | - | 100 | ⇩ |
| Canran o Bobl Hŷn a phobl sydd ag Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy | - | - | - | 88.0 | |
| Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 4.44 | ⇩ |
| Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd | 46.21 | 45.07 | 43.10 | 42.06 | ⇩ |
| Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd (yn cynnwys addasiadau ac offer) | 79.41 | 78.17 | 73.00 | 74.00 | ⇩ |
| Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 25.59 | 24.15 | 22.69 | 21.96 | ⇧ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu | 20.08 | 18.48 | 17.10 | 16.40 | ⇧ |
| Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 95.72 | 100 | 96.70 | 100 | ⇧ |
| O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99 | 100 | ⇧ |



## Diogelu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran holl staff Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 mewn amddiffyn a diogelu | - | - | Trefniadau Corfforaethol yn cael ei ddatblygu | - | Ddim yn berthnasol |
| Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi) | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |
| Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 95 | 98 | 97 | 94 | ⇩ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd â gwiriad Disclosure and Barring Service (DBS) cyfredol | - | 100 | 100 | - | |
| **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai** | | | | | |
| Canran Prosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw/ gynaladwy ymhen 3 blynedd | - | - | - | 78 | Ddim yn berthnasol |
| Canran gwariant y Cyngor hefo busnesau lleol | 40.33 | 40.42 | 38.00 | Blynyddol | |
| Nifer o swyddi wedi eu diogelu gyda chymorth yr Uned | 206 | 163 | - | 25 | ⇩ |
| Yr amser (nifer dyddiau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 23.10 | 19.74 | 16.00 | 17.30 | ⇧* |
| Yr amser (nifer dyddiau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 6.91 | 6.23 | 3.70 | 5.80 | ⇧* |
| Buddsoddiad wedi ei sicrhau i ddatblygu mentrau gwledig arloesol Gwynedd | - | - | - | 256,000 | Ddim yn berthnasol |
| Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5,301 | 4,199 | 4,309 | 3,073 | ⇩ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran sydd wedi cael budd o sesiynau Llythrennedd Gwybodaeth | - | - | - | 100 | Ddim yn berthnasol |
| Canran defnyddwyr llyfrgelloedd (oedolion) sydd yn nodi iddynt ddarganfod y wybodaeth oeddent angen | 85.0 | 90.7 | - | 89.0 | ⇧ |
| Nifer swyddi wedi eu creu gyda chymorth y Cyngor | 123.5 | 234.5 | 81.0 | 40.0 | ⇩ |
| Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 242 | 316 | 271 | 311 | ⇩ |
| Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 5.24 | 5.70 | 5.13 | 3.68 | ⇩ |
| Buddsoddiad i'r sir drwy law prosiectau | £4,332,108 | £1,255,000 | £3,241,616 | £6,622,171 | ⇧ |
| Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 70 | 144 | 48 | 71 | ⇔ |
| Cyfnod (nifer dyddiau) mae wedi gymryd i'r Uned Ddigartrefedd gyflawni cynllun atal i'r rhai sydd o dan fygythiad | 145.85 | 84.94 | 69.08 | 54.00 | ⇧ * |

* Ffigwr is yn welliant



| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro (nifer dyddiau) | 113.78 | 75.82 | 126.02 | 104.44 | ⇧ * |
| Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,666,662 | £4,814,867 | £5,928,034 | £6,764,860 | ⇧ |
| Nifer swyddi gwerth uchel wedi eu creu | - | 34 | 35 | 22 | ⇩ |
| Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes/e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Ddigidol | - | - | 36 | 49 | ⇧ |

## Y Gymraeg

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr ysgolion cynradd sydd yn gallu dangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg | 64 | Heb Adrodd | 75 | | |
| Canran yr ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc Blwyddyn 7 o'r Gymraeg | - | Gosod Gwaelodlin | 100 | | |

## Yr Amgylchedd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor | - | - | - | 10 (Medi 2016 ymlaen) | Ddim yn berthnasol |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran o gwsmeriaid a ddwedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | - | 88.9 | 94.4 | ⇧ |
| Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | - | - | 99.0 | 100 | ⇧ |
| Canran adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol | 96.00 | 96.00 | 97.18 | 97.00 | ⇧ |
| Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd | 97.49 | 97.20 | 97.95 | 98.61 | ⇧ |
| Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |
| Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100 | 100 | ⇔ |
| Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 30.79 | 35.45 | 41.44 | 40.5 | ⇧ |
| Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wnaethpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd | 97.2 | 97.0 | 97.8 | 98.0 | ⇔ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod | 72.86 | 76.44 | 82.30 | 81.18 | ⇧ |
| Nifer cyfartalog y dyddiau mae'n cymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio perthnasol | - | - | 60.00 | 59.26 | ⇔* |
| Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 73.50 | 70.65 | 76.26 | 75.70 | ⇧ |
| Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 93.50 | 94.30 | 96.70 | 96.55 | ⇧ |
| Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith I'r amser hysbyswyd | 97.67 | 96.53 | 96.28 | 97.90 | ⇔ |
| Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | 84.6 | 80.3 | 79.0 | 80.0 | ⇩ |
| Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.7 | 3.5 | 2.3 | 2.5 | ⇔ |
| Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.4 | 3.5 | 3.1 | 3.5 | ⇧* |
| Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.7 | 3.7 | 3.4 | 3.9 | ⇧* |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 14.7 | 14.2 | 15.8 | 15.2 | ⇩* |
| Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | 45.88 | 44.09 | 34.33 | 30.62 | ⇧* |
| Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | 54.01 | 55.14 | 58.70 | 62.34 | ⇧ |
| Elw yn erbyn y targed- Adran Ymgynghoriaeth | £120,000 | £21,000 | -£34,000 | £66,000 | Ddim yn berthnasol |

## Cynllunio Ariannol

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 94 | 94 | 93 | 88 | ⇩ |
| Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o’r holl arbedion | 95.2 | 99.0 | 98.0 | 68.0 | Ddim yn berthnasol |
| Cyfradd Casglu Treth Cyngor yn y Flwyddyn Gyfredol | 96.98 | 97.20 | 97.29 | 97.35 | ⇔ |
| Cyfradd Casglu Blwyddyn Gyfredol Trethi Annomestig | 97.79 | 98.20 | 98.13 | 97.91 | ⇔ |

* Ffigwr is yn welliant

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asesiad o ddiogelwch buddsoddiadau ariannol y Cyngor (Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau – dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-) | 5.50 | 3.62 | 3.57 | 3.27 | ⇧ |
| Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb (%) | -0.14 | -0.18 | -0.13 | -0.28 | ⇔ |
| Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth | 67.84 | 87.47 | 92.90 | 93.47 | ⇧ |
| Swm arbedion a gyflawnwyd | £3,399,940 | £4,765,846 | £7,303,756 | £6,145,710 | Ddim yn berthnasol |

## Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

| Mesur | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Tuedd 2013-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn | 8.20 | 8.62 | 8.44 | 9.00 | ⇩* |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
6 Mehefin 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2016/17 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2017)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £136,000 mewn defnydd o fenthyca arall
- cynnydd £190,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £319,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £136,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £297,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

Cymeradwyo'r dyraniad o £100,000 ar gyfer gwaith rhagbaratoi a chynllunio i adolygu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Bangor, i'w ariannu o arian sydd eisoes wedi ei dderbyn yn sgil taliadau cytundeb 106 gan gwmni Redrow, ynghlwm i safleoedd datblygu tai ym Mangor. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £100,000 yn y rhaglen gyfalaf 2017/18.

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r broses cau cyfrifon 2016/17. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £62.131m am y 3 blynedd 2016/17 – 2018/19.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £0.484m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2016/17 i 2017/18

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Llwyddodd y Cyngor i wario dros £29m yn 2016/17 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £11m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Bydd £9.4m o gyllideb gwariant yn llithro o 2016/17, o'i gymharu â llithriad o £9.5m ar ddiwedd 2015/16. Ni achoswyd unrhyw golled ariannu grant i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3 Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2018/19

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig hyd at ddiwedd Mawrth 2017:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 15,033 | 11,815 | 237 | 27,085 | 110 |
| Amgylchedd | 5,053 | 5,691 | 52 | 10,796 | 14 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 70 | 510 | 0 | 580 | (61) |
| Cyllid | 609 | 981 | 0 | 1,590 | 70 |
| Economi a Chymuned | 1,951 | 589 | 0 | 2,540 | 333 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 2,040 | 2,708 | 0 | 4,748 | 124 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 762 | 498 | 0 | 1,260 | 226 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 58 | 0 | 0 | 58 | 10 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 2,558 | 5,708 | 3,085 | 11,351 | (342) |
| Ymgynghoriaeth | 1,175 | 26 | 0 | 1,201 | 0 |
| Corfforaethol | 0 | 922 | 0 | 922 | 0 |
| **CYFANSWM** | **29,309** | **29,448** | **3,374** | **62,131** | **484** |

## 4 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £0.484m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,136 | 6,352 | 321 | 10,809 | 0 |
| Benthyca Arall | 6,970 | 7,957 | 119 | 15,046 | 136 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 11,460 | 3,457 | 0 | 14,917 | 190 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 770 | 1,320 | 0 | 2,090 | 319 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 3,038 | 1,655 | 0 | 4,693 | 136 |
| Cronfa Cyfalaf | 0 | 2,587 | 0 | 2,587 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 2,935 | 6,120 | 2,934 | 11,989 | (297) |
| **CYFANSWM** | **29,309** | **29,448** | **3,374** | **62,131** | **484** |

## 5 Darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor (2017/18)

Penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar Ionawr 17eg 2017 y dylid bwrw ymlaen i edrych ar drefniadaeth addysg yn ardal Bangor, ac mae'r trafodaethau ar hyn ar fin cychwyn yn lleol. Adnabuwyd fod yna amserlen hynod o gaeth gan y Llywodraeth ar gyfer gwario unrhyw grant a gynigir ar gyfer y cynlluniau Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain yma, ac os ydym am fanteisio'n llawn ar y grant, mae rhaid cychwyn ar y gwaith rhagbaratoi a chynllunio yn ddi-oed. I'r pwrpas yma argymhellir cynnwys £100,000 yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18. Bwriedir ariannu'r swm yma o arian sydd eisoes wedi ei dderbyn yn sgil taliadau cytundeb 106 gan gwmni Redrow, ynghlwm i safleoedd datblygu tai ym Mangor. Mae rhain yn daliadau penodol sy'n ofynol ar ddatblygwr fel cyfraniad tuag at y gost i'r Cyngor o gartrefu nifer ychwanegol o blant yn sgil y datblygiad. Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, fe adlewyrchir y cynnydd yma yn yr Adolygiad Chwarterol nesaf.

## 6 ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2016/17 i 2018/19, a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 4 uchod), a**
- **chymeradwyo'r dyraniad o £100,000 ar gyfer gwaith rhagbaratoi a chynllunio i adolygu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Bangor, i'w ariannu o arian sydd eisoes wedi ei dderbyn yn sgil taliadau cytundeb 106 gan gwmni Redrow, ynghlwm i safleoedd datblygu tai ym Mangor. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £100,000 yn y rhaglen gyfalaf 2017/18.**

## 7. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2016/17 - 2018/19.

## 8. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2016/17, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol erbyn diwedd mis Mehefin.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn  berthnasol.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**

Atodiad A - Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu (2016/17)
Atodiad B - Ail-broffilio cyllideb – prif gynlluniau

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU (2016/17):**
Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | Cynnydd/ (Lleihad) £'000 |
|---|---|
| **Benthyca Arall** | |
| • Offer Pulse (Adran Economi a Chymuned) - pryniant offer ffitrwydd i'r canolfannau hamdden drwy ddefnydd o fenthyciad mewnol, sydd yn opsiwn mwy cost effeithiol na lesu'r offer drwy gwmni allanol. Ariennir y costau benthyg perthnasol drwy incwm refeniw'r dyfodol. | 299 |
| • Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Amgylchedd) – llai o wariant ar gynlluniau rhaglenedig Salix ac felly llai o angen i fenthyca. | (141) |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | |
| • Ail-leoli llyfrgell Bro Tegid, Bala (Adran Addysg) – grant gan y Llywodraeth at gostau ail-leoli'r llyfrgell i'r ysgol | 120 |
| • Prosiect 'ECO' Arbed (Uned Tai) – grant drwy raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ac yn benodol drwy brosiect 'ECO' Arbed, sydd yn cefnogi cynlluniau effeithlonrwydd ynni ar sail ardal mewn cymunedau difreintiedig. Yr ardal berthnasol yn yr achlysur yma yw ardal Peblig, Caernarfon, sydd yn ychwanegiad i'r grant a dderbyniwyd y llynedd. | 128 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Cynllun Llety Cefnogol Pant yr Eithin (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) - addasiad technegol i adlewyrchu'r cytundeb rhwng Grŵp Cynefin a'r Cyngor i werthu'r safle yma i Grŵp Cynefin ar bris y farchnad, ac i glustnodi'r swm yma fel cyfraniad at ddatblygiad y safle i rai efo anableddau dysgu. | 225 |
| • Addasiad Technegol – Cynllun Strategol (defnyddio derbyniadau cyfalaf o gynllun Mynwy yn hytrach na ariannu'r cynlluniau drwy refeniw) – gweler Refeniw Corfforaethol isod. | 52 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Diogelwch Ffyrdd (Adran Amgylchedd) – cyfraniad o gyllideb refeniw penodol i ariannu gwariant angenrheidiol ar gynllun Blaenau i Rhyd y Sarn (A496). | 144 |
| • Offer TG - Gliniaduron (Adran Gyllid) – cyfraniadau perthnasol o gyllidebau refeniw sawl adran at y gost o brynu gliniaduron. | 44 |
| • Addasiad Technegol – Cynllun Strategol (defnyddio derbyniadau cyfalaf o gynllun Mynwy yn hytrach nac ariannu'r cynlluniau drwy refeniw) – gweler Derbyniadau Cyfalaf uchod. | (52) |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Biniau Ailgylchu, Bwyd a Sgipiau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - gwariant is yn sgil ailasesiad o oes ddefnyddiol sgipiau, ynghyd a phenderfyniad i ohirio'r pryniant o finiau eraill. | (210) |
| • Cerbydau Ailgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – penderfynwyd prynu 3 cerbyd ailgylchu gwahanol i'r rhai oedd yn y rhaglen wreiddiol sydd wedi lleihau gwariant. | (142) |

----------------------------

**AIL-BROFFILIO CYLLIDEB – PRIF GYNLLUNIAU:**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi'u hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| Adnewyddu Cerbydau'r Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (2,423) | 2,423 |
| Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) | (1,747) | 1,747 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Amgylchedd) | (1,640) | 1,640 |
| Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai) | (708) | 708 |
| Cynlluniau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor (Adran Gyllid) | (445) | 445 |
| Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (301) | 301 |
| Cynlluniau Ail wynebu Meysydd Parcio (Adran Amgylchedd) | (288) | 288 |
| Cynllun EDRMS (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) | (241) | 241 |

**NODER:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella. Diau fydd yr Aelodau Cabinet cyfrifol a'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bodloni eu hunain ynglŷn â'r ail-broffilio yma.

---------------------------

**ADRODDIAD I'R CABINET**
6 MEHEFIN 2017

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET CYLLID

**Pwnc:** CYFRIFON TERFYNOL 2016/17 – ALLDRO REFENIW

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

**Gofynnir i'r Cabinet:**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2016/17.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (100) |
| Plant a Theuluoedd | 0 |
| Addysg | (48) |
| Economi a Chymuned | (19) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 |
| Amgylchedd (Rheoleiddio gynt) | (38) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (96) |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (45) |
| Cyllid | (67) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (56) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2)** –

- Defnyddio (£46k), sef tanwariant uwchlaw £100k Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyfrannu tuag at ddiffyg mewn adran arall.

- Clirio gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd er mwyn caniatau iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant (£46k) a thanwariant Corfforaethol (£151k).

- Clirio gorwariant yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn caniatau iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant Corfforaethol (£88k).

- Defnyddio'r tanwariant £939k ar Gyllidebau Corfforaethol am 2016/17 fel a ganlyn:
  - £151k i glirio gorwariant Adran Plant a Theuluoedd
  - £88k i glirio gorwariant Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
  - £700k i'w glustnodi mewn cronfa er mwyn cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol i'r dyfodol.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol a rhyddhau'r ddarpariaeth fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gronfeydd a darpariaethau.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Yn gyffredinol, er gwaethaf parhad y gofynion heriol i gyflawni arbedion a thoriadau, **mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2016/17 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.** Wrth gwrs, mae hynny wedi'i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2016/17 er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol erbyn 30 Mehefin**, ac wedyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i graffu ar 13 Gorffennaf 2017.

## 3. Adrannau'r Cyngor

3.1 **Cadarnhaf bu cyllidebau rhan fwyaf o'r adrannau dan reolaeth gadarn eto eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol y mwyafrif o'r adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2016/17, ond nodaf y bu gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion** yn chwarter olaf o'r flwyddyn, a bydd cyfran o'u tanwariant gros ar gael i ariannu diffyg mewn adran arall.

3.3 Bu gorwariant ar wasanaethau lleoliadau a gweithredol Adran **Plant a Theuluoedd** ac yn y maes gwastraff gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**.

3.4 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae dau gais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, ac un Adran efo sefyllfa tanwariant sydd yn uwch na'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2016/17.

3.5 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2016/17 yn unig.

3.6 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gôr/tanwariant yn 2016/17, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2017/18, ac mae'r mwyafrif o'r materion hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2017/18 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 4. Ysgolion

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi lleihau o £3.3m i £2.9m yn 2016/17. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi lleihau o £447,692 (11 Cynradd, 4 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2016 i £420,471 (12 Cynradd, 4 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2017. Cadarnhaf bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda hynny.

## 5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

5.1 Bu tanwariant un-tro o (£939k) ar nifer o benawdau y gyllideb gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Mae (£239k) o'r tanwariant net yma ar gael i gyfrannu tuag at orwariant dwy adran, a (£700k) i'w glustnodi ar gyfer ariannu y strategaeth ariannol i'r dyfodol.

5.2 Adolygwyd digonolrwydd holl gronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor unwaith eto gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd ddwy flynedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £1.060m o adnoddau (£998k o gronfeydd penodol a £62k o ddarpariaeth), fel amlinellir yn Atodiad 3.

5.3 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu cryn ansicrwydd ynglŷn â lefel ariannu grant Llywodraeth erbyn 2018/19 a thu hwnt. Felly, mae angen sefydlu cronfa wrth gefn i brynu amser a sicrhau hyblygrwydd i ddelio gyda'r her a'r ansicrwydd. Bydd neilltuo £1.76m mewn cronfa benodol yn rhoi amser i'r Cyngor gynllunio er mwyn ymateb yn briodol.

5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir ym mharagraff 1.3 uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i leihau'r defnydd arfaethedig o'i gronfeydd ac osgoi unrhyw ddefnydd o falansau cyffredinol y Cyngor yn 2016/17.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2016/17 y Cyngor erbyn 30 Mehefin. Wrth werthfawrogi fod hyn yn amserlen heriol, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant Adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2016/17, ac ystyried yr wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

6.4 Bydd yr Adran Cyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2016/17 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid erbyn 30 Mehefin a'u cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 13 Gorffennaf.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

## Cyfrifon Terfynol 2016/17 Alldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Trydydd Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,705** | **(146)** | **46** | **(100)** | *88* |
| **Plant a Theuluoedd** | **12,990** | **197** | **(197)** | **0** | *222* |
| **Addysg** | **81,752** | **(48)** | **0** | **(48)** | *42* |
| **Economi a Chymuned** | **6,659** | **(19)** | **0** | **(19)** | *2* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **20,637** | **88** | **(88)** | **0** | *58* |
| **Amgylchedd**<br>(Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Eiddo Corfforaethol) | **6,008** | **(38)** | **0** | **(38)** | *(100)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **320** | **(96)** | **0** | **(96)** | *(47)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **2,069** | **(45)** | **0** | **(45)** | *(55)* |
| **Cyllid** | **5,572** | **(67)** | **0** | **(67)** | *(56)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,894** | **(56)** | **0** | **(56)** | *(80)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol**<br>*(Gwahaniaethau yn Unig)* | * | **(939)** | **939** | **0** | *(5)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **188,606** | **(1,169)** | **700** | **(469)** | *69* |

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 9,861 | 9,589 | (272) | 46 | **(226)** | *(316)* |
| Gofal Cartref | 6,329 | 6,306 | (23) | 0 | **(23)** | *(28)* |
| Eraill | 1,954 | 1,916 | (38) | 0 | **(38)** | *(18)* |
| | 18,144 | 17,811 | (333) | 46 | **(287)** | *(362)* |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 479 | 439 | (40) | 0 | **(40)** | *(50)* |
| Gofal Cartref | 1,016 | 1,069 | 53 | 0 | **53** | *41* |
| Eraill | 677 | 605 | (72) | 0 | **(72)** | *(63)* |
| | 2,172 | 2,113 | (59) | 0 | **(59)** | *(72)* |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,545 | 14,188 | (357) | 0 | **(357)** | *(103)* |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,386 | 1,595 | 209 | 0 | **209** | *236* |
| Eraill | 1,953 | 1,802 | (151) | 0 | **(151)** | *(48)* |
| | 3,339 | 3,397 | 58 | 0 | **58** | *188* |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolaeth | 290 | 255 | (35) | 0 | **(35)** | *(34)* |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,450 | 2,460 | 10 | 0 | **10** | *(5)* |
| | 2,740 | 2,715 | (25) | 0 | **(25)** | *(39)* |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **40,940** | **40,224** | **(716)** | **46** | **(670)** | ***(388)*** |

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (616) | (457) | 159 | 0 | **159** | *86* |
| Gofal Dydd | (232) | (232) | 0 | 0 | **0** | *3* |
| Gofal Cymunedol | 59 | 228 | 169 | 0 | **169** | *122* |
| Eraill | (37) | (74) | (37) | 0 | **(37)** | *(27)* |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(826)** | **(535)** | **291** | **0** | **291** | ***184*** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,601 | 1,565 | (36) | 0 | **(36)** | *13* |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys cynlluniau arbedion yr Adran)* | 2,990 | 3,305 | 315 | 0 | **315** | *279* |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **4,591** | **4,870** | **279** | **0** | **279** | ***292*** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,705** | **44,559** | **(146)** | **46** | **(100)** | ***88*** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Wedi i'r rhagolygon o orwariant leihau yn raddol drwy'r flwyddyn, bu newid erbyn y sefyllfa ariannol derfynol, gyda thanwariant o (£146k). Mae'r prif symudiadau a gwahaniaethau fel a ganlyn:

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - tanwariant o (£333k) yn bennaf gan fod y tueddiad o leihad yn y niferoedd cleientiaid mewn lleoliadau preswyl a nyrsio yn parhau.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - tanwariant o (£59k), gyda (£40k) ohono ar breswyl a nyrsio, y duedd o ostyngiad yn y nifer o achosion taliadau uniongyrchol yn parhau, ond cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - y tanwariant yn bennaf ar breswyl a nyrsio ac felly yn dilyn yr un tuedd â'r darlun a adroddir ar wasanaethau pobl hŷn ac anabledd corff uchod. Defnydd o grant yn y chwarter olaf ar Lety Cefnogol yn arwain at gynnydd sylweddol yn y tanwariant, ynghyd â chyfraniadau ôl-ddyddiedig gan Iechyd.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - gostyngiad o (£130k) yn y gorwariant net, gyda lleihad yn nifer y pecynnau preswyl a nyrsio. Yn ystod y chwarter olaf Iechyd wedi cyfrannu tuag at nifer o gynlluniau cefnogol, gyda rhai ohonynt yn berthnasol i'r flwyddyn flaenorol. Grant ychwanegol wedi arwain at leihad yn y gorwariant a ragwelwyd ar ofal alcohol a chyffuriau.

**Gwasanaethau Darparu** - parhad yn y tueddiad yn y gorwariant sydd wedi cynnyddu i £291k, gyda'r symudiad mwyaf yn ystod y chwarter ar ofal preswyl, yn deillio o gostau staffio ychwanegol gan gynnwys salwch tymor hir. Gorwariant o £169k ar ofal cymunedol, £86k ohono o ganlyniad i orwariant ar gostau teithio gyda'r gweddill ar staffio a gorbenion.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol** - tangyflawni net ar wireddu cynlluniau arbedion yn gyfrifol am £483k o'r gorwariant ar y pennawd yma, gyda nifer o gynlluniau arbedion yn llithro i'w gwireddu yn 2017/18. Mae bwriad gan yr Adran i gymryd camau pellach i geisio sicrhau fod y darlun yn gwella, drwy ail-becynnu eu cynlluniau arbedion. Tanwariant staff a derbyniad grant ychwanegol yn lleihau y gorwariant a adroddir i £315k.

**Crynhoad ac Argymhelliad**
Yn unol â'r drefn arferol, caniateir cario drosodd £100k i 2017/18.

**Argymhellir** defnyddio (£46k), sef tanwariant uwchlaw £100k Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyfrannu tuag at ddiffyg mewn adran arall.

Atodiad 2

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 483 | 466 | (17) | 0 | **(17)** | *(23)* |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,906 | 2,154 | 248 | 0 | **248** | *226* |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,322 | 2,413 | 91 | 0 | **91** | *60* |
| Maethu Drwy Asiant | 970 | 999 | 29 | 0 | **29** | *25* |
| Maethu Mewnol | 1,640 | 1,713 | 73 | 0 | **73** | *110* |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,440 | 1,584 | 144 | 0 | **144** | *99* |
| | 6,372 | 6,709 | 337 | 0 | **337** | *294* |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 1,045 | 847 | (198) | 0 | **(198)** | *(184)* |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,476 | 1,397 | (79) | 0 | **(79)** | *(34)* |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 242 | 217 | (25) | 0 | **(25)** | *(25)* |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 122 | 59 | (63) | 0 | **(63)** | *(45)* |
| Gwasanaethau Eraill | 1,344 | 1,338 | (6) | 0 | **(6)** | *13* |
| Argymhelliad | | | | (197) | **(197)** | *0* |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **12,990** | **13,187** | **197** | **(197)** | **0** | ***222*** |

## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - cynnydd o £22k yn y gorwariant ers yr hyn a adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter, gyda'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn £248k. Y gorwariant yn bennaf ar gostau staff, a bu'r Adran yn llwyddiannus yn derbyn bid i ymateb i'r pwysau ar gyfer cyllideb 2017/18 ymlaen. £54k o'r gorwariant ar gostau uwch pecynnau gofal cymhleth.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - gorwariant o £337k ar wasanaethau lleoliadau, sydd £43k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 3, ond gostyngiad yn y gorwariant ar faethu mewnol gan nad oedd cynnydd net yn nifer yr achosion yn ystod y chwarter. Cynnydd yn y gorwariant ar leoliadau all-sirol, gan fod un achos newydd yn ystod y chwarter a dau achos arall yn ddrytach na'r disgwyliad. Cynnydd yn y gorwariant ar lwfansau gwarcheidwaeth arbennig a gorchymyn preswyl i £144k erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gwasanaethau Ôl-16** - tanwariant o (£198k) yn dilyn lleihad yn y galw am gynlluniau cefnogol Ôl-16, yn unol â'r tueddiad trwy gydol y flwyddyn.

**Gwasanaethau Arbenigol Derwen** - Arbedion staff un-tro, defnydd o grant ac gwireddu arbedion 2017/18 yn gynnar.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - cynnydd yn y tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn derbyn grantiau ychwanegol yn y chwarter olaf, ynghyd â ffioedd incwm ychwanegol.

**Crynhoad ac Argymhelliad**

Er fod y gorwariant a adroddir wedi lleihau £25k yn ystod y chwarter olaf, gyda £197k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Adran Plant a Theuluoedd eisioes wedi defnyddio eu holl arian wrth gefn. Bu i'r Adran dderbyn bid parhaol o £50k a £210k un-tro ar gyfer 2017/18 i gydnabod y pwysau sydd ar y gwasanaethau. Mae'r Adran felly yn gofyn i'r Cabinet am gymorth efo'r sefyllfa gorwariant terfynol un flwyddyn. Mae'r Pennaeth Adran Plant a Theuluoedd, gyda chefnogaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol, yn cyflwyno cais i'r Cabinet ddileu y diffyg o £197k gan yr Adran ar 31/03/2017.

**Argymhellir** clirio gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd er mwyn caniatau iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant (£46k) a thanwariant Corfforaethol (£151k).

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 71,361 | 71,361 | 0 | 0 | **0** | *0* |
| Cludiant | 4,266 | 4,297 | 31 | 0 | **31** | *7* |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 1,373 | 1,373 | 0 | 0 | **0** | *2* |
| All Sirol | 979 | 973 | (6) | 0 | **(6)** | *0* |
| Arlwyaeth a Glanhau | 228 | 127 | (101) | 0 | **(101)** | *(103)* |
| Addysg Meithrin | 569 | 559 | (10) | 0 | **(10)** | *(10)* |
| Grant Gwella Addysg | 588 | 601 | 13 | 0 | **13** | *0* |
| Rheolaeth | 1,393 | 1,386 | (7) | 0 | **(7)** | *(22)* |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 1,952 | 2,128 | 176 | 0 | **176** | *186* |
| Addysg Bellach | 24 | 13 | (11) | 0 | **(11)** | *(14)* |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | 95 | 79 | (16) | 0 | **(16)** | *0* |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,574 | 1,544 | (30) | 0 | **(30)** | *0* |
| Eraill | (2,650) | (2,737) | (87) | 0 | **(87)** | *(4)* |
| **Cyfanswm Addysg** | **81,752** | **81,704** | **(48)** | **0** | **(48)** | ***42*** |

## Addysg

Gwelwyd symudiad ffafriol o (£90k) ers rhagolygon y trydydd chwarter, gyda'r Adran Addysg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn sefyllfa o danwariant o (£48k). Y prif feysydd sydd yn cyfrannu at sefyllfa'r Adran yw:

**Cludiant** - dirywiad o £24k ers y trydydd chwarter, gyda gorwariant o £31k bellach, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gludiant bysus ysgolion o ganlyniad i gostau uwch, a lleihad yn yr incwm cludiant ôl-16, ond sydd yn cael ei leihau gyda thanwariant ar gludiant tacsis ysgolion.

**Arlwyaeth a Glanhau** - tanwariant o (£101k) yn unôl â'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i wireddu arbedion arlwyaeth 2017/18 ysgolion yn gynnar.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn gyfrifol am orwariant o £186k ar y pennawd yma, gyda derbyniad incwm ychwangol i'r Unedau Cyn Ysgol ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau y gorwariant i £176k.

**Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau (GwE a Cynnal)** - arbediad un-tro yng nghyfraniad Gwynedd i'r Cyd-bwyllgorau ac i Cynnal ar gyfer 2016/17.

**Eraill** - cyllidebau cefnogol Addysg yn gyfrifol am y symudiad ffafriol ers rhagolygon y trydydd chwarter, gyda thanwariant o (£87k) ar nifer o gyllidebau amrywiol Addysg. Cynhwysir (£16k) ar gostau y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS), (£12k) cyllideb athrawon llanw, (£11k) ymweliadau ysgolion a (£8k) cyllidebau grwpiau strategol, gyda'r gweddill ar gyllidebau cefnogol yr Adran Addysg.

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Rheolaeth | 409 | 409 | 0 | 0 | **0** | *0* |
| Cefnogaeth Busnes | (120) | (124) | (4) | 0 | **(4)** | *7* |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 603 | 601 | (2) | 0 | **(2)** | *0* |
| Adfywio Cymunedol | 458 | 468 | 10 | 0 | **10** | *6* |
| Sgiliau a Mentergarwch | 61 | 59 | (2) | 0 | **(2)** | *(5)* |
| Tîm Prosiectau Strategol | 258 | 295 | 37 | 0 | **37** | *45* |
| Strategaeth a Datblygu | 317 | 312 | (5) | 0 | **(5)** | *0* |
| Archifau | 285 | 272 | (13) | 0 | **(13)** | *(10)* |
| Amgueddfeydd | 89 | 98 | 9 | 0 | **9** | *(5)* |
| Orielau | 63 | 64 | 1 | 0 | **1** | *0* |
| Neuaddau | 175 | 181 | 6 | 0 | **6** | *3* |
| Celfyddydau | 263 | 256 | (7) | 0 | **(7)** | *(3)* |
| Parciau Gwledig | 40 | 1 | (39) | 0 | **(39)** | *(26)* |
| Morwrol | (198) | (107) | 91 | 0 | **91** | *75* |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 987 | 879 | (108) | 0 | **(108)** | *(98)* |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach - Canolfannau Hamdden | 1,285 | 1,310 | 25 | 0 | **25** | *25* |
| Datblygu Chwaraeon | 210 | 204 | (6) | 0 | **(6)** | *(2)* |
| Llyfrgelloedd | 1,474 | 1,462 | (12) | 0 | **(12)** | *(10)* |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **6,659** | **6,640** | **(19)** | **0** | **(19)** | ***2*** |

## Economi a Chymuned

Y sefyllfa ariannol wedi gwella yn ystod y flwyddyn a bellach mewn sefyllfa tanwariant o (£19k), gyda nifer o wasanaethau ar draws yr Adran wedi llwyddo i leihau costau, a denu mwy o incwm. Y meysydd gyda'r prif wahaniaethau yw:

**Tîm Prosiectau Strategol** - gorwariant o £37k yn ymwneud â ariannu un prosiect strategol.

**Parciau Gwledig** - tanwariant o (£39k) yn bennaf o ganlyniad i ffioedd parcio Parc Padarn yn rhagori ar y targed am y flwyddyn.

**Morwrol** - y gorwariant wedi cynnyddu i £91k erbyn diwedd y flwyddyn, ac yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg incwm yn Hafan Pwllheli a'r harbyrau, yn dilyn lleihad yn y galw am angorfeydd. Bu i'r Adran ymgeisio yn ystod y flwyddyn i leihau y bwlch yn yr incwm drwy leihau costau yn y safleoedd. Bydd yr Adran Economi a Chymuned yn cyflwyno adroddiad cynhwysfawr ar sefyllfa Hafan Pwllheli, yn dilyn cais penodol gan y Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2016.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - y tuedd o danwariant a adroddwyd yn ystod y flwyddyn yn parhau ac wedi cynyddu i (£108k), gyda (£74k) ohono ar ddwy swydd wag swyddogion datblygu, a (£34k) ar glybiau ieuenctid, wrth i'r Adran adnabod arbedion ar gyfer 2017/18 ac ymlaen yn y meysydd yma.

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 7,827 | 7,797 | (30) | 0 | **(30)** | *23* |
| Gwasanaethau Peirianneg | 491 | 517 | 26 | 0 | **26** | *33* |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,617 | 2,508 | (109) | 0 | **(109)** | *(125)* |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 973 | 973 | 0 | 0 | **0** | *5* |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 3,079 | 3,254 | 175 | (88) | **87** | *56* |
| Gwastraff Masnachol | (94) | (6) | 88 | 0 | **88** | *119* |
| Eraill Gwastraff | 1,458 | 1,524 | 66 | 0 | **66** | *19* |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 8,033 | 8,253 | 220 | (88) | **132** | *74* |
| Amlosgfa a Mynwentydd | (172) | (275) | (103) | 0 | **(103)** | *(36)* |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,500 | 3,542 | 42 | 0 | **42** | *32* |
| | 11,361 | 11,520 | 159 | (88) | **71** | *70* |
| Unedau Darparu Bwrdeistrefol | 958 | 891 | (67) | 0 | **(67)** | *(68)* |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **20,637** | **20,725** | **88** | **(88)** | **0** | ***58*** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Cynnydd o £30k yn lefel y gorwariant ers yr adolygiad trydydd chwarter i £88k.

**Maes Gwastraff** - nifer o resymau am yr amrywiannau gan y gwasanaethau o fewn y maes gwastraff gan gynnwys:

- ***Gwaredu Gwastraff*** - yn unol â'r duedd trwy'r flwyddyn, tanwariant o (£109k) o ganlyniad i lai o wastraff yn cael ei dirlenwi.

**- *Casglu Gwastraff ac Ailgylchu* -** cynnydd yn y gorwariant ers y trydydd chwarter i £175k, gyda £89k o'r cynnydd yn y chwarter olaf yn deillio o gostau uwch ar fflyd. Tunelledd uwch na'r hyn a ragwelwyd ar gostau ymdrin a deunyddiau ailgylchu yn arwain at gynnydd yn y gorwariant i £139k. Llithriad yn yr arbedion banciau ailgylchu, lleihad grant, a phwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn cynnydd yn y nifer tai yn arwain at gostau gweithredol ac adnewyddu uwch. Tanwariant ar gostau ac incwm ychwanegol gwastraff gwyrdd yn lleihau lefel y gorwariant a adroddir.

- ***Gwastraff Masnachol*** - yn dilyn trefniadau newydd o resymoli biniau ysgolion, gwelwyd colled incwm sydd wedi lleihau i £37k bellach drwy ddenu incwm allanol. Ond yn gyfochrog â hyn, mae effaith y rhesymoli eisoes i'w weld gan fod gostyngiad yn y gwastraff sydd yn cael ei dirlenwi, ac felly tanwariant yn erbyn y gyllideb Gwaredu Gwastraff a adroddir arno uchod. Mae prisiau 2017/18 wedi eu haddasu i unioni y golled incwm. Gorwariant ar gostau fflyd wedi cynnyddu yn y chwarter olaf ond tanwariant staff yn helpu'r sefyllfa.

- ***Eraill Gwastraff*** - llai o nwyon o hen safle tirlenwi Cilgwyn yn arwain at ddiffyg incwm o £54k ar freindaliadau a phroblemau yn y chwarter olaf ar beiriannau yn y Canolfannau Ailgylchu yn arwain at orwariant.

**Amlosgfa a Mynwentydd** - cynnydd yn yr incwm o'r hyn a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, gyda incwm yr amlosgfa yn uwch o (£73k) a chladdedigaethau (£20k), arbediad pellach o £10k ar ynni.

**Unedau Darparu Bwrdeistrefol -** Tanwariant o (£67k) drwy gyfuniad o wireddu arbedion staffio ymlaen llaw a llai o gostau rhedeg.

**Crynhoad ac Argymhelliad**

Gorwariant o £88k ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i bwysau ar wasanaethau Gwastraff yr Adran. Disgwylir i'r Adran gymryd camau pendant yn 2017/18 i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y gyllideb. Bu i'r Adran dderbyn bid parhaol o dros £657k ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol ar gyfer 2017/18 ymlaen. Mae'r Adran felly yn gofyn i'r Cabinet am gymorth efo'r sefyllfa gorwariant terfynol un flwyddyn eleni. Mae'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gyda chefnogaeth y Tim Rheoli Corfforaethol, yn cyflwyno cais i'r Cabinet i ddileu y diffyg o £88k.

**Argymhellir** clirio gorwariant yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn caniatau i'r iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant Corfforaethol (£88k).

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Amgylchedd** ***(Rheoleiddio gynt)*** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 155 | 143 | (12) | 0 | **(12)** | *(15)* |
| Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 175 | 170 | (5) | 0 | **(5)** | *(5)* |
| Eraill | (104) | (119) | (15) | 0 | **(15)** | *(12)* |
| | 71 | 51 | (20) | 0 | **(20)** | *(17)* |
| Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 50 | 50 | 0 | 0 | **0** | *0* |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,143 | 1,143 | 0 | 0 | **0** | *0* |
| Diogelwch y Ffyrdd | 160 | 140 | (20) | 0 | **(20)** | *(9)* |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 102 | 86 | (16) | 0 | **(16)** | *(2)* |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,745) | (1,746) | (1) | 0 | **(1)** | *2* |
| Cludiant Integredig | 1,620 | 1,579 | (41) | 0 | **(41)** | *(10)* |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 303 | 321 | 18 | 0 | **18** | *0* |
| | 1,633 | 1,573 | (60) | 0 | **(60)** | *(19)* |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 891 | 940 | 49 | 0 | **49** | *(1)* |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 252 | 252 | 0 | 0 | **0** | *(1)* |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,455 | 1,462 | 7 | 0 | **7** | *(23)* |
| Arlwyo, Glanhau a Gofalu | (10) | (17) | (7) | 0 | **(7)** | *(16)* |
| Eiddo | 1,561 | 1,566 | 5 | 0 | **5** | *(8)* |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **6,008** | **5,970** | **(38)** | **0** | **(38)** | ***(100)*** |

**<u>Amgylchedd *(Rheoleiddio gynt)*</u>**

Symudiad o £62k yn ystod y chwarter olaf gyda'r tanwariant yn lleihau i (£38k) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhagwelwyd tanwariant sylweddol gan yr adran yn yr adolygiadau blaenorol, ac mae £445k eisioes wedi ei drosglwyddo i bwrpas blaenoriaethau'r Cyngor, gyda'r Adran Amgylchedd yn cael caniatâd i ddefnyddio £200k pellach tuag at gynlluniau cyfalaf i wella cyflwr meysydd parcio.

**Rheolaeth yr Adran a Chynllunio** - tanwariant ar gostau staff a chyflenwadau a gwasanaethau, ac incwm yn rhagori'r targed gan Cynllunio.

**Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - tanwariant o (£60k) am nifer o resymau gan gynnwys swyddi gwag yn Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Integredig, incwm uwch gan Traffig a Threfniadau Statudol a Chludiant Integredig a chostau cyflenwadau a gwasanaethau a thanwydd is. Yr adran yn defnyddio rhan o'r tanwariant i gyllido cynlluniau cyfalaf cysylltiedig.

**Cefn Gwlad a Mynediad** - symudiad o £50k yn ystod y chwarter olaf yn dilyn cyfuniad o gostau diswyddo, diffyg incwm a gwariant uwch ar gynnal llwybrau a lonydd glas.

**Cyfrifon Terfynol 2016/17**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (175) | (212) | (37) | 0 | **(37)** | *(35)* |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 426 | 393 | (33) | 0 | **(33)** | *0* |
| Rheolaeth Adeiladu | 69 | 43 | (26) | 0 | **(26)** | *(12)* |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **320** | **224** | **(96)** | **0** | **(96)** | ***(47)*** |

## Ymgynghoriaeth

Rhagolygon ariannol Ymgynghoriaeth wedi gwella'n raddol yn ystod y flwyddyn o sefyllfa o orwariant ar ddechrau'r flwyddyn i danwariant o (£96k) erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - tanwariant o (£37k) o ganlyniad i lwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd** - tanwariant ar gostau staff, defnydd o grantiau a chostau gweithredol is yn arwain at symudiad ffafriol o (£33k) ers yr Adolygiad Trydydd Chwarter.

**Rheolaeth Adeiladu** - cyfuniad o danwariant ar wasanaethau a chyflenwadau, a swydd wag.

| **Cyfrifon Terfynol 2016/17** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,069 | 2,024 | (45) | 0 | **(45)** | *(55)* |
| Cyllid | 5,572 | 5,505 | (67) | 0 | **(67)** | *(56)* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,894 | 7,838 | (56) | 0 | **(56)** | *(80)* |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,535** | **15,367** | **(168)** | **0** | **(168)** | ***(191)*** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - gostyngiad o (£10k) yn y tanwariant a ragwelwyd yn y trydydd chwarter i (£45k), yn dilyn derbyniad incwm uwch gan yr Uned Gyfreithiol, ac incwm o Gyngor Dinbych i gyllideb Cyfarwyddwr Corfforaethol. Yn ychwanegol i hyn, arbediad 2017/18 a wireddwyd ymlaen llaw (£13k) yn y maes Cynllunio Argyfwng yn cyfrannu tuag at y sefyllfa ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cyllid** - cynnydd o £11k yn y tanwariant i (£67k) erbyn diwedd y flwyddyn. Tanwariant un-tro swyddi ar draws yr Adran, gyda trosiant staff sylweddol yn y maes Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnyddu tanwariant yr Adran. Y duedd yn parhau o ddenu incwm uwchlaw'r gyllideb gan gyrff allanol yn y maes Archwilio a Thechnoleg Gwybodaeth, ac yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol ffafriol.

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** tanwariant o (£56k) erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i arbedion staffio un-tro o drosiant staff ar draws yr Adran. Nifer o unedau yn rhagori ar eu hincwm, gan gynnwys Cofrestru a Chyfieithu, ac er y rhagolygon o orwariant yn ystod 2016/17 ar gyfer yr Argraffdy, tanwariant o (£11k) erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn derbyn incwm ychwanegol, gan gynnwys incwm allanol.

| **Cyfrifon Terfynol 2016/17** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 82 | 0 | **82** | *78* |
| Budd-daliadau | * | * | (382) | 0 | **(382)** | *0* |
| Costau Cyfalaf Corfforaethol | * | * | (35) | 0 | **(35)** | - |
| Adennill Costau Gwyl Rhif 6 | * | * | (1) | 0 | **(1)** | - |
| Eraill | * | * | (603) | 0 | **(603)** | *(83)* |
| Cyfraniad tuag at Orwariant Adrannau | * | * | 0 | 239 | **239** | - |
| Cyfraniad tuag at Strategaeth ariannol i'r dyfodol | * | * | 0 | 700 | **700** | - |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(939)** | **939** | **0** | ***(5)*** |

## Corfforaethol

**Derbyniad Llog Net** - diffyg o £82k ar logau o ganlyniad i sefyllfa bresennol y farchnad, lefel y diffyg yn gyson â'r darlun sydd wedi ei ragweld yn flaenorol.

**Budd-daliadau** - tanwariant o (£382k) ar elfen gostyngiad Treth y Cyngor o Fudd-daliadau.

**Costau Cyfalaf Corfforaethol -** tanwariant o (£35k) o ganlyniad i gyfraniadau adrannol uwch ar gostau benthyca.

**Adennill Costau Gwyl Rhif 6** - llwyddodd y Cyngor i adennill ei holl gostau gwerth £8k oedd ynghlwm â thrafferthion Gwyl Rhif 6.

**Eraill** - tanwariant o (£603k) sydd yn gyfuniad o arbedion ymlaen llaw ac un-tro corfforaethol eu natur, arbedion costau apeliadau trethi busnes, derbyniad incwm ychwanegol ar weithgareddau allanol, tanwariant un-tro ar gostau cyflogi cysylltiedig â bidiau.

**Cyfraniad tuag at Strategaeth Ariannol i'r dyfodol** - mae sefyllfa tanwariant Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu fod modd cyfrannu £700k i gronfeydd ariannol, fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio tuag at Strategaeth Ariannol i'r dyfodol.

Yn Atodiad 3 i'r adroddiad cynhwysir fanylion gwerth £1,060k o gronfeydd a darpariaethau i'w cynaeafu, i'w rhoi mewn cronfa benodol ar gyfer cynorthwyo gyda pecyn ariannu y strategaeth ariannol i'r dyfodol. Bydd y £1,060k yma, ynghyd â £700k tanwariant Corfforaethol ar ddiwedd 2016/17, yn golygu fod pecyn ariannu gwerth £1,760k ar gael.

**Argymhellir** defnyddio'r tanwariant £939k ar Gyllidebau Corfforaethol am 2016/17 fel a ganlyn:
- £151k i glirio gorwariant Adran Plant a Theuluoedd
- £88k i glirio gorwariant Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
- £700k i'w glustnodi mewn cronfa er mwyn cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol i'r dyfodol.

## Cynaeafu Cronfeydd

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr gan swyddogion Cyllid o'r holl gronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol ar gyfer defnydd yn y Strategaeth Ariannol i'r dyfodol:

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Tanwariant Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 32,484 |
| Cyffredinol Corfforaethol - Prif Weithredwr (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 50,000 |
| Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 263,146 |
| Cynllun Gweithio'n Unigol (prosiect wedi cwblhau) | 10,267 |
| Iechyd a Diogelwch (dim ymrwymiad ar ei gyfer ) | 6,025 |
| Prosiectau Arbedion a Thoriadau Cefnogaeth Gorfforaethol (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 25,000 |
| Cymhorthydd Cyffredinol Ymgynghorol Adnoddau Dynol (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 6,520 |
| Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 23,637 |
| Systemau a Threfniadau Ariannol Cyllid (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 50,000 |
| Adolygiad Tâl (wedi delio â'r achosion perthnasol) | 90,976 |
| Tendro Contractau (llwyddwyd i weithredu hebddo) | 150,000 |
| Trefn Gwynion (arian parhaol ar gyfer y maes bellach) | 90,000 |
| Cronfa Unioni Budd-Daliadau (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 200,000 |
| **Cyfanswm** | **998,055** |

## Adolygiad Anghenion Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o anghenion o ran darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r canlynol ar gyfer defnydd yn y Strategaeth Ariannol i'r dyfodol:

| **Darpariaeth** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Adolygiad Tâl (wedi delio â'r achosion perthnasol) | **62,179** |

| **Cyfanswm Cronfeydd a Darpariaethau i'w Cynaeafu** | **1,060,234** |
|---|---:|